Secondly it would offer its particular skills and resources, along with those offered by other social services, to a co-operative and co-ordinated approach to the problems of the disadvantaged whether individual or general ...The two functions might be regarded as both complementary and disparate.

5.7 Continued

If the professional worker in the youth service is to function as an educator in his own right and as a member of a multi-disciplinary team.... It may be argued that his training should be such as to give him parity of professional opportunity with teachers and social workers. ... A possible pattern of training might be:

- B.Ed. with a substantial youth work option.
- Certificate of qualification in social work with a youth work oriented community work option.
- 2-year youth & community work courses with opportunity to convert to courses leading to B.Ed. or CQSW.
- A part time in-service route to youth and community worker status.

Provision for Youth D.E.S. 1975.

‘ Firstly the trust will provide services to help young people in trouble or at risk.... in order to meet the variety of needs of children it is essential that a variety of provision is made available. This range of provision can be seen as a continuum of care between conventional youth provision and removal of the young person from the community. Projects under consideration include day care, a neighbourhood delinquency scheme: befriending particular individuals with volunteer adults; and providing social skills training and social education.

All these projects will be guided by the concept of community involvement...young people will be encouraged to play a constructive part in the life of the community.
The trust’s second area of work will be that of developing inter agency co-operation to help co-ordinate the work of the statutory and voluntary sectors.’

Leicester action for youth trust 1980.

‘ Adolescence is a critical stage in the transition from childhood to adulthood.

- Many young people are able to cope with this transition without undue difficulty. For them youth work can enrich their lives, broaden their experiences, provide challenging activities and generally complement the work of schools and colleges.
- Some young people find adolescence a period of confusion, frustration and uncertainty...youth workers respond to their needs by befriending, supporting, informing, advising and counselling them, and by advocating on their behalf.
- Where appropriate, youth workers will intervene in the lives of young people in order to divert them from developing behaviour patterns and lifestyles, which can harm themselves and others. This may include challenging anti-social or criminal behaviour, addressing health issues, and supporting young people who experience personal or relationship problems.



5.7 Parhad

The Wales Youth Agency firmly believes that the youth service is an education service....

The Wales Youth Agency recommends that unitary authorities should locate their youth service in a department that has a responsibility for education.'



Building the Future Wales Youth Agency
(Undated c. 1994)

RESOURCE SHEET:5.8

THE THOMPSON REPORT - "Experience and participation" (1982).

The Thompson report emphasised, as the title suggests the value of providing young people with worthwhile experiences but particularly it emphasised the value of the experience of participation in decision making on matters, which concern them

A list of recommendations include the following:

- " At club or unit level, members should have a high degree of control over the programme and facilities.
- " At both club and youth council level it is essential that the decisions and proposals of young people should be followed up.
- This depends on youth workers having the appropriate commitment, style and skills to encourage participation.

Within the context of this overarching philosophy the report identified five 'offerings' the youth service should provide:

- Association - a place to meet and be with friends a place for socialising and enjoyment.
- Activities - interesting and new things to do, opportunities for fresh experiences.

- Advice - in the widest sense, to include information, advice and personal counselling.
- Action in the community - All forms of community action taking place within the youth service.
- Access to life and vocational skills - the youth service has a vital role to play in all initiatives designed to mediate the transition from full time education to adult life.

In addition to these routine offerings the report identified seven key challenges facing young people in the 1980's:

- The challenge of alienation
- The challenge of employment and unemployment
- The challenge of educational change
- The challenge of special community needs
- The challenge of a multicultural society
- Creating equal opportunities for girls and women
- Work with the handicapped. (*it was P.C. then!*)

Under each of these headings the report suggested appropriate forms of intervention for the youth service.

Alienation -

- By providing places where such young people can become involved in activities in an informal atmosphere.
- By offering young people personal counselling and intervention on their behalf.
- By providing constructive relationships with adults and other young people.

5.8 Continued

- By offering alienated young people alternative ways of putting over their point of view and enabling them to play an active part in altering their conditions.
- By representing young peoples' needs and interests to other services and negotiating appropriate referral arrangements.

Employment and unemployment -

- Critically important that the youth service should participate fully in the planning, delivery and management of the new youth training scheme, and making inputs in the following areas:
- Staff training and development.
- Curriculum development.
- Trained and experienced personnel.
- Residential and outdoor pursuit centres.
- Sponsoring and managing schemes.
- Speaking as an advocate for young people and helping representatives of trainees themselves to make their views known.

Educational change -

Young people at school, in F.E. or on Y.T.S. may well be involved in provision which has large elements in common with the youth service it makes sense that youth workers should be involved in planning curricula and programmes in schools, and also that the facilities in schools should be open for use by the youth service.

Special community needs -

(Particularly focused on inner city areas).

- The inclusion of work with young people within a community development response to the needs of a neighbourhood.
- The provision of project based work.
- The identification, training and support of leadership from within the local community.

Multicultural society -

- The service needs to embrace the concept of cultural diversity as a positive gain in any society.
- The youth service should bring home to the public both the realities of racism and the ways in which it may be broken down.
- Young people themselves may be the next creators of a more equal and unprejudiced society.
- The service should adopt management practices that are appropriate to these aims. It should fully involve black communities in the process of policymaking and review, in curriculum development and in management structures at all levels. Adopt recruitment policies that would ensure a conspicuous presence of black workers within the service as a whole, not just in black areas nor in the lower echelons of the service.

5.8 Continued

Equal opportunities for girls and women -

- The youth service curriculum should be committed to the eradication of sexist attitudes
- Expand detached and project based work with young women
- Training course should promote greater sensitivity to girls needs in general
- Correct the present imbalance between men and women in the full time worker and officer force. The service should be seen to be committed to equal status and opportunity
- Additional resources to implement the above should be made available

The handicapped -Integration is concerned with meeting for the handicapped basic needs felt by all people - relationships with and acceptance by the peer group, and participation in activities, groups and the community. Providing bodies in an area should resort to a variety of means, including both integrated and separate provision. In principle one would expect to find the same elements as those identified for youth provision generally. There is a need for awareness training and preparation at every level, this will normally mean allocating responsibility for this area to nominated officers.

Exercise:

Bearing in mind that the Thompson report is now twenty years old it is perhaps time to assess its impact and its relevance to young peoples needs in the twenty first century

In small groups:

- ❖ *Assess how far the challenges outlined above have been met in your own area and club or project*
- ❖ *Identify any new challenges that face young people today*
- ❖ *Suggest ways in which the youth service could respond to these new challenges*
- ❖ *Produce a coherent programme for your centre to address any one of the challenges you have identified*




Gêm:5.1

Gêm Hanes Gwaith Cymdeithasol 1700 - 1939

Ceisiwch feddwl am rai o'r dylanwadau ar bob un o'r cyfnodau e.e. rôl pobl ifainc, mathau o waith, y gwasanaethau a oedd ar gael, amodau cymdeithasol, gwleidyddiaeth, dylanwadau brenhinol, prif ddigwyddiadau, datblygiadau pwysig, ac ati.

Sut i chwarae: Defnyddiwch ddarn arian i nodi'ch lle. Mae'r person cyntaf yn troelli'r ysgrifbin a symud yn ôl nifer y bylchau a ddangosir. Wedyn, rhaid iddi / iddo geisio meddwl am un peth a ddigwyddodd yn ystod y blynyddoedd hynny (sgoriwch 2 bwynt), bydd eraill yn y grwp wedyn yn cael cyfle i awgrymu digwyddiad (sgoriwch 1 pwynt). Wedyn, mae'r person nesaf yn chwarae gan ddefnyddio'r un darn arian. Ewch ymlaen hyd nes eich bod wedi cyrraedd y diwedd ac yna rhowch gyfanswm y pwyntiau.

START	1700-1800	1800-1849	1850-1899	1900-1910	1911-1920	1700-1800	1800-1849	1850-1899
								1900-1910
1850-1899	1911-1920	1900-1910	1921-1930	1850-1899	1800-1849	1700-1800	1921-1930	1911-1920
1931-1939								
1911-1920	1921-1930	1931-1939	1921-1930	1931-1939	1921-1930	1931-1939	1911-1920	1931-1939
								END



TAFLEN ADNODDDAU:5.9

Tueddiadau mewn Datblygiad Diwylliant Ieuencid

Cyfnod	Sylw ar ddatblygiad bywydau pobl ifainc, cynlluniau dillad, cerddoriaeth, ac ati.
1940 – 1949	
1950 – 1959	

1960 – 1969	
1970 – 1979	
1980 – 1989	

UWCHDAFLUNYDD 5.1

Dylai gweithiwr cymwys ddeall a chydabod yr angen:

- i barchu unigolion
- i barchu a gwerthfawrogi diwylliant amlochrog cymdeithas
- i wynebu anghydraddoldeb a rhagfarn
- i gydnabod dylanwad y gweithiwr a'i gwerthoedd / ei werthoedd
- i gydnabod ei bod hi / ei fod ef, ac eraill, yn fodau sy'n newid

Sesiwn 6

- Cymuned**
- Beth ydyw?
 - Beth mae'n ei olygu?

Cynnal arolwg, a'i bwysigrwydd

- patrymau sy'n newid
- anghenion cymdeithasol

Cymuned a theulu

- y prif werthoedd
- agweddau diwylliannol

Deilliannau dysgu:

- Astudio ac ystyried amrywiaeth profiadau pobl eraill [C4]
- Asesu anghenion unigolion ac ymateb iddynt yn y modd priodol [C5]

Adnoddau ar gyfer Sesiwn 6:

OHP's

Taflenni adnoddau

6.1

6.2

6.3

6.4

6.5

Llungopier taflenni adnoddau ar gyfer pawb sy'n bresennol

UWCHDAFLUNYDD 6.1

Amlinelliad o Broffil Cymuned

“Mewn cymdeithaseg mae gan astudiaethau cymuned draddodiad hir. Sail y rhain, fel arfer, yw cymdogaethau penodol, a’u prif nod yw disgrifio gwerthoedd, patrymau byw a dull o fyw y bobl sydd yn trigo yno. Maent yn ddefnyddiol iawn i allu dal ‘cyfanrwydd’ profiad cymdeithasol. Hyd yn oed pan ganolbwyntia’r astudiaeth ar un agwedd (e.e. tai neu deulu), fel arfer mae’n ceisio ei gosod o fewn cyd-destun cyffredinol y gymdogaeth gyfan.’

[Taylor et al 1995 *Sociology in Focus*]

“Mae rhai cymdeithasegwyr yn wfftio’r syniad fod cymunedau go iawn yn dal mewn bod ym Mhrydain. Cyfeiriant at ‘fachlud’ neu ‘golli’ y gymuned gan awgrymu fod cymunedau clos y gorffennol wedi diflannu i bob pwrpas.”

“Cyfeiria Cymuned at set o gysylltiadau cymdeithasol, tiriogaeth sy’n cael ei rhannu a chymundeb”

[Taylor et al, 1995 *Sociology in Focus*]

TAFLEN ADNODDAU:6.1

Cymunedau:

Nodweddion ein cymunedau:

Adnabod cymdogion a phobl leol: Sefydliadau yn y gymuned – ysgolion, eglwysi, siopau, tafarndai, clybiau, a chanolfannau cymunedol; boreau coffi; Cylchoedd Mam a'i Phlentyn; 'ysbryd cymunedol' – gwerthoedd sy'n cael eu rhannu, rhwydweithiau cynnal; laith, tafodiaith ac acen; Teuluoedd – strwythurau teulu estynedig; grwpiau cyfoedion a chyfeillion

Agweddau pwysig ar ddiwylliant:

Bod yn agos i'w gilydd, y syniad o berthyn; Cyfeillgar, Parch at ei gilydd; Synnwyr ddigrifwch sy'n gyffredin i bawb; Hunaniaeth a balchder cenedlaethol; Mwynhau a digwyddiadau cymdeithasol – canu, partïo, yfed; Siaradus ac allblyg; Traddodiadau – gwylnosau, diwylliant rygbi, Cinio'r Sul gyda'r teulu

Dynion 'macho'; Diwylliant corfforol ymosodol; Trais yn y cartref; Bwlian; Materoliaeth

Newidiadau yn y Gymuned:

Llai o ysbryd cymunedol; Cysylltiadau'n ymddatod; Rhagor o famau'n gweithio; Rhagor o allfudo; Gwerthoedd crefyddol yn edwino; Diffyg parch: Teulu estynedig yn crebachu;

Cynnydd mewn troseddu a cham-drin cyffuriau, pobl ifainc yn niwsans, ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Cyfleusterau gwell; Ysbryd cymunedol yn ailymddangos; tai gwell; cynnydd mewn perchnogaeth ceir; gwelliannau amgylcheddol; technolegau newydd.

Effeithiau'r Newidiadau:

Rhagor o bobl ifainc yn defnyddio cyffuriau ac alcohol; Llai o gyswllt â chymdogion; Gofidiau am warchod plant; Dirywiad mewn sefydliadau traddodiadol – clybiau, eglwysi, capeli ac ati: Pwysedd ar rieni – materoliaeth, nwyddau ffasiynol ac enwog ac ati; dulliau plismona newydd – ymhellach i ffwrdd o'r gymuned, ond mwy o ymrwymiad i gynlluniau megis 'Cymunedau'n Gyntaf'; Rhagor o gymudo i'r gwaith.

Newidiadau aachoswyd gan:

Patrymau cyflogaeth gwahanol; Dirywiad y diwydiannau traddodiadol; datblygiadau tai newydd; Gwerthoedd cymdeithas yn gyffredinol yn newid; Dylanwad y cyfryngau: newid technolegol; Adleoli cyfleoedd gwaith



6.1 Parhad

Cymunedau a Newid:

1. Sut y buasech chi'n disgrifio eich cymuned heddiw?

Meddylwch yn nhermau:

Maint; cydbwrpas; cydwerthoedd; cydfuddiannau; math o gyswllt a geir rhwng aelodau; pa mor dda mae pobl yn eu hadnabod ei gilydd; a oes ymdeimlad o 'berthyn'?

2. Ydy'r gymuned neu'r ymdeimlad o gymuned wedi newid dros yr ugain mlynedd diwethaf? Os ydyw, rhestrwch sut y mae wedi newid, yn eich barn chi.

3. Os ydych wedi gallu nodi newidiadau, rhowch y rhesymau drostynt. Ystyriwch ffactorau cymdeithasol, economaidd, gwleidyddol a phersonol.


4. Pa ffactorau, yn eich barn chi, sydd yn helpu i greu ymdeimlad o gymuned?

5. Pa ffactorau, yn eich barn chi, sydd yn ymyrryd ar yr ymdeimlad o gymuned?

Yn sgil eich ymateb ystyriwch rôl y gweithiwr ieuenctid a'r gweithiwr cymuned, y gwasanaeth ieuenctid a'r gwasanaeth cymunedol.

Ai ein rôl ni yw cadw ymdeimlad o gymuned, ail-greu ymdeimlad o gymuned, neu helpu cymunedau i ymdopi â newid?

Nodwch a rhestrwch ystod o strategaethau ymyrryd a allai gael eu defnyddio gan weithwyr er mwyn cyflawni'r nodau hyn.



TAFLEN ADNODDAU:6.2

DOSBARTIAD BRADSHAW O ANGEN CYMDEITHASOL

Y broblem:

Ni chynigir yr un diffiniad clir, diffiniad a dderbynnir gan bawb, o angen cymdeithasol yn nhermau darpariaeth lles cymdeithasol, a chymhlethir hyn gan y ddadl am yr hawl i ddarpariaeth lles cymdeithasol, h.y. p'un ai a ddylai'r ddarpariaeth fod i bawb (fel lwfans teulu) neu'n weddillol (rhaid dangos angen amlwg trwy brawf moddion neu rywbeth tebyg).

Wrth asesu'r anghenion, heblaw am fudd-daliadau i unigolion, mae'r sefyllfa hon yn fwy cymhleth, e.e. yn cwmpasu anghenion megis tai, darpariaeth gymdeithasol, a'r ddarpariaeth ar gyfer pobl ifainc, ac ati. Ceisia Bradshaw ddatrys y broblem trwy nodi amrywiol gategoriâu o angen - a thrwy ddefnyddio'r categorïau gwahanol ar y cyd, ddatblygu system o flaenoriaethu a nodi gwir angen.

Pedwar Categori Sylfaenol o Angen Cymdeithasol:

- Angen normadol – wedi'i seilio ar ddiffiniad 'arbenigol' o angen sef ar safon neu norm cydnabyddedig. Yn ei hanfod dyma gysyniad 'cymharol' o angen wedi'i seilio ar yr hyn a ystyrir yn lefel dderbyniol o ddarpariaeth mewn perthynas â safonau cyffredinol, neu safonau sydd wedi'u diffinio'n swyddogol. E.e. Isafswm Cyflog Cenedlaethol, yr anghenion mwyaf sylfaenol o ran darparu cartref i deulu ac ati.

- Angen a deimlir – yr hyn y mae pobl yn ei ystyried yn ddigonol i ddiwallu eu gofynion sylfaenol. Gall unigolion neu grwpiau gyfleu hyn, os gofynnir iddynt, mewn cyfweiliad neu arolwg cymdeithasol er enghraifft mewn cyfweiliad neu arolwg cymdeithasol.
- Yr anhawster o ran adnabod angen yn y modd hwn yw ei fod yn gallu bod yn orddrychol iawn ac, at hyn, gellir ei effeithio gan yr hyn a holir i bobl, a gellir ei wyrdroi gan ddisgwyliadau afresymol neu oherwydd anwybodaeth am yr hyn a allai fod, neu na allai fod, ar gael.
- Angen a fynegir – mae'n debyg iawn i angen a deimlir, ac yn y rhan fwyaf o achosion mae'n angen a deimlir ac a fynegir yn groyw, trwy gyfrwng deiseb, gwrthdystiad neu lobïo er enghraifft. Yr un yw'r problemau tebygol yma i eiddo'r rheiny a nodwyd ar gyfer anghenion a deimlir, ond gellir dylanwadu arnynt gan grwpiau pwysu bychain ond pwerus. Er enghraifft ymgyrchoedd i achub ysgolion bychain, neu i ddatblygu grwpiau 'vigilante'.
- Angen cymharol – wedi'i seilio ar gymhariaeth o grwpiau tebyg lle ceir darpariaeth anghyson, gellir ei ddefnyddio yn ganllaw ar gyfer asesu hawl i ddarpariaeth gwasanaeth. Gall pobl deimlo eu bod wedi dioddef o ragfarn annheg yn eu herbyn am fod rhai ardaloedd sy'n profi problemau tebyg, e.e. diweithdra hirdymor, a phobl ifainc yn achosi problemau, wedi llwyddo i gael darpariaeth mwy manteisiol, oherwydd dylanwad cynghorwyr lleol, grwpiau pwysu ac ati.

6.2 Parhad

Dadl sylfaenol Bradshaw yw bod angen i'r rheiny sy'n llunio polisïau cymdeithasol gydnabod bod categorïau gwahanol o angen, a'u hystyried nhw i gyd wrth asesu'r angen i ddarparu gwasanaeth.

“Gallai'r dosbarthiad hwn ddangos y ffordd ymlaen mewn maes sydd, am resymau damcaniaethol ac ymarferol, yn gofyn am ystyried manwl. Heb ragor o ddosbarthu bydd llawer o bolisi cymdeithasol yn gorfod perthyn i fyd tybiaethau gwleidyddol a dyfalu academaidd gallai'r dosbarthiad helpu egluro'r hyn a wneir pan fydd y rheiny sy'n ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol yn astudio neu'n cynllunio ar gyfer diwallu angen cymdeithasol’

Bradshaw J. *The Concept of Social Need*. In Fitzgerald M. *Welfare in Action* 1977

(R.K.P./ Gwasg y Brifysgol Agored)

TAFLEN ADNODDAU:6.3

Modelau ar gyfer proffilio cymunedau.

Hyfforddi ar gyfer Trawsnewid:

- 'Arolwg' anffurfiol – nid arolwg traddodiadol – ond yn hytrach ymarferiad gwrando craff a synhwyrus. Gyda'r dull hwn mae'r tîm yn gwrando'n bennaf ar drafodaethau anffurfiol a byrfyfyr mewn llefydd lle y mae pobl yn debygol o siarad yn rhydd ymhlith ei gilydd, e.e. mewn bariau, caffis, siopau, ac ati.
- Dadansoddi'r arolwg – beth yw'r pynciau allweddol y mae pobl yn siarad amdanynt, beth sy'n debygol o'u symbylu
- Byddai dadansoddi pellach yn edrych ar 6 'maes allweddol' bywyd

1. A yw anghenion sylfaenol yn cael eu diwallu?
2. Perthnasau cymdeithasol yn y gymuned e.e. rhwng pobl ifainc a phobl sydd wedi ymddeol, patrymau teuluol, pobl gyffredin a gwleidyddion lleol, swyddogion cyhoeddus, rhieni ac ysgolion ac ati.
3. Strwythurau cymunedol ar gyfer gwneud penderfyniadau – sut mae pobl yn cyfrannu iddynt. A yw pawb yn cyfrannu, neu dim ond yr ychydig ddethol, neu'r ychydig sy'n dethol eu hunain? Pwy yw'r aelodau allweddol, yr arweinwyr

cymunedol a'r llefarwyr ffurfiol ac anffurfiol? Beth yw lle pobl ifainc yn y strwythurau hyn?

4. Addysg a chymdeithasoli – pa sgiliau, pa werthoedd, a pa batrymau ymddygiad sy'n dderbyniol gan y gymuned?
5. Adloniant – Pa fathau o adloniant sydd ar gael, pwy sy'n manteisio arnynt, a yw pobl ifainc yn gallu cymryd rhan neu a ydynt yn cael eu hallgau, pa fathau o adloniant y mae pobl yn eu creu drostynt eu hunain?
6. Credoau a gwerthoedd – beth yw'r athroniaeth a'r gwerthoedd allweddol sy'n sail i fywyd yn y gymuned, beth sy'n bwysig i bobl yn y gymuned?

Ailystyried gwaith cymdeithasol gyda phobl ifainc - Swyddogaeth Scan:

- Gwasanaethau yn y Gymuned i Asesu Angen (SCAN - Services in the Community for the Assessment of Need) – amgylchedd y person ifanc yw'r man cychwyn, ac mae pob gweithgaredd proffesiynol yn deillio o asesiad dilys o angen.
- Gellir nodi pedair swyddogaeth allweddol:
 1. Helpu neu roi'r cyfle i bobl ifainc nodi anghenion - heb ei gyfyngu gan ddiffiniad asiantaeth o angen, ond yn cael ei dylanwadu gan ddealltwriaeth pobl ifainc eu hunain o'r hyn y credant yw eu hanghenion a'u problemau.

6.3 Parhad

2. Nodi patrymau o angen lleol – Canolbwyntio ar y gymdogaeth gyfan yn hytrach nag ar unigolion, asesu anghenion yr ardal a gwerthuso a monitro ansawdd a pherthnasedd y gwasanaethau sydd ar gael eisoes.

3. Helpu pobl ifainc i gael at y gwasanaethau – mae gofyn cael gwybodaeth eang o wasanaethau a chyfleusterau y gallai pobl ifainc gael atynt ac adnoddau eraill yn y gymuned a allai gael eu defnyddio.

4. Dylanwadu ar bolisïau darpariaeth leol – Annigonol yw rhoi darlun o anghenion presennol a dyfodol pobl ifainc, sicrhau'r math cywir o gymorth, a nodi'r diffygion yn y ddarpariaeth gyfredol. Mae angen rhywbeth arall, sy'n gofyn am ddatblygu'r grym i ddylanwadu ar ymarfer a pholisi asiantaethau, sy'n medru gwella rhai o'r gwendidau a nodir.

Sgiliau gwaith yn y Gymdogaeth:

Mae'r dull hwn yn nodi 6 maes allweddol y mae angen i weithwyr yn y gymdogaeth fod yn gyfarwydd â nhw:

- Hanes – Mae perthynas rhwng pynciau llosg a phroblemau ardal a phobl, mudiadau a digwyddiadau'r gorffennol. Er mwyn deall natur y pynciau sydd o bwys i'r gymdogaeth yn iawn rhaid eu gosod mewn persbectif hanesyddol.
- Yr Amgylchedd- mae'n bwysig am y bydd yn sicr o gynnwys llawer o'r problemau a'r pynciau sydd yn poeni'r

gymuned leol; dyma gyd-destun gwaith a hamdden pobl, a gallai fod yn ddylanwad pwysig o ran perthynas pobl a'i gilydd.

- Y trigolion – bydd data am y bobl sy'n byw yn y gymdogaeth yn galluogi'r gweithiwr i ddeall natur y gymuned, a bydd, yn ogystal, yn galluogi'r gweithiwr i nodi meysydd dan anfantais ac ati.
- Mudiadau – mae gwybodaeth am y mudiadau sydd yn dylanwadu ar unrhyw gymuned yn hanfodol, a byddai'n cynnwys gwybodaeth am y mudiadau canlynol:
 1. Gwasanaethau llywodraeth leol a llywodraeth ganol.
 2. Y rheiny sy'n gysylltiedig â gweithgarwch economaidd yn yr ardal.
 3. Mudiadau crefyddol.
 4. Cymdeithasau sy'n adlewyrchu diddordebau a hamdden.
 5. Mudiadau gwirfoddol sy'n darparu gwasanaethau.
- Cyfathrebau – Mae'n bwysig i weithiwr wybod sut y lledaenir gwybodaeth, newyddion a syniadau mewn ardal, ac, yn arbennig, y dulliau mwyaf effeithiol, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, o ledaenu gwybodaeth.

Pwer ac arweinyddiaeth – i gynnwys, er enghraifft, mudiadau busnes lleol, gwleidyddiaeth etholiadol a gweinyddol, gwleidyddiaeth gymunedol.

TAFLEN ADNODDAU:6.4

Ymarfer Proffilio'r Gymuned:

Deilliannau dysgu yn ymwneud â 'chymuned':

Bydd myfyrwyr yn medru:

- ❖ Disgrifio patrymau datblygol 'cymuned' mewn cymdeithas gyfoes.
- ❖ Asesu dechrau nodweddion cymdeithasol penodol o fewn cymunedau.
- ❖ Adnabod y grymoedd a'r dylanwadau mewn cymdeithas sydd yn llywio bywydau a chymunedau pobl.
- ❖ Deall rhaniadau cymdeithasol a sut y maent yn effeithio ar ddiwylliant a natur cymunedau.

Gan gadw'r deilliannau dysgu hyn mewn cof:

- *Ystyriwch eich cymunedau chi eich hunain a cheisiwch restru cynifer o nodweddion ag y gellwch sy'n ei gwneud yn 'gymuned'.*
- *Pa agweddau ar ei diwylliant h.y. ei ffordd o fyw, ei gwerthoedd a'i hymagweddu, a ellwch chi eu nodi fel rhai sy'n arwyddocaol i'r gymuned honno?*

- *Os oes rhai, pa newidiadau i'ch cymuned chi a brofwyd gennych yn ystod eich bywyd; pa effeithiau a gafodd y newidiadau hyn ar eich cymuned chi?*
- *Beth oedd y ffactorau allweddol a arweiniodd at y fath newidiadau?*
- *Pe baech chi'n llunio proffil o'ch cymuned chi er mwyn ei chyflwyno i ddieithryn, pa ffactorau fyddai'n arwyddocaol, yn eich barn chi?*
- *Pa adnoddau fyddai'n ddefnyddiol i chi wrth lunio proffil o'r fath?*

Gan edrych ar eich ymatebion i'r ymarfer uchod:

- Beth yw nodweddion allweddol cymuned?
- Ceisiwch ddiffinio'r gair 'cymuned'.
- Pa mor bwysig yw gwybodaeth am y gymuned i weithiwr ieuencid a gweithiwr cymunedol?

TAFLEN ADNODDAU:6.5

Cynllun 'Streetwise' – Proffilio Cymuned

Beth sydd angen i ni ei wybod er mwyn gweithio yn ein 'milltir sgwâr'?

Gwybodaeth Ystadegol – i gynnwys:

- ❖ Dadansoddiad o'r Boblogaeth
- ❖ Cyflogaeth / Diweithdra
- ❖ Ystodau Oedran
- ❖ Rhieni Ifainc
- ❖ Gweithgareddau Hamdden
- ❖ Newidiadau Poblogaeth [Mewnfudo ac Allfudo]
- ❖ Ystadegau'r Heddlu e.e. fandaliaeth, cyfraddau troseddu, cyffuriau ac ati:
- ❖ Materion Ieithyddol
- ❖ Lefelau Amddifadedd

Ffynonellau Ystadegau:

Mae'r Cyfrifiad Cenedlaethol yn cyflwyno data ar wahanol lefelau:

Lefel y D.U.; y lefel genedlaethol [Cymru]; lefel yr Awdurdod Unedol; lefel ward etholiadol; [Cyhoeddir y rhain fel arfer, ac fe'u gosodir mewn llyfrgelloedd] Ystadegau Ardal Fechan neu

Ardal Gyfrif - yn rhoi darlun manwl o gymdogaethau. [Ar gael o swyddfeydd cynllunio lleol, fel arfer ar ffurf allbrint cyfrifiadur]

Dangosyddion Amddifadedd:

Mae'r dangosyddion amddifadedd a gydnabyddir yn genedlaethol [yn ddefnyddiol wrth wneud cais am gyllid] yn cynnwys y categorïau ystadegol canlynol:

Tai ar rent yn y sector cyhoeddus neu'r sector preifat; Tyeidiau heb gar; Tyeidiau heb gyfleusterau, neu sydd yn rhannu cyfleusterau; Tyeidiau gorlawn; Lefelau diweithdra; Nifer y bobl sy'n dioddef o salwch hirdymor sy'n eu cyfyngu; Nifer y rhai 16/17 mlwydd oed sydd heb fod mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant; Nifer y tyeidiau un-rhiant; Tyeidiau â phlant ond heb enillwyr cyflog.

Ystyrir sgôr uchel yn unrhyw un o'r categorïau hyn, neu ymhob un ohonynt, yn ddangosydd amddifadedd uchel – mae defnyddio ystadegau ardal fechan yn galluogi'r ymchwilydd i adnabod pocedi o amddifadedd o fewn awdurdodau lleol, ac yn dystiolaeth dda ar gyfer ymyrraeth wedi'i thargedu.

6.5 Parhad

Byddai gwybodaeth ddefnyddiol arall yn cynnwys:

Hanes lleol, yn enwedig ffactorau cymdeithasol-economaidd; Cyfleusterau a rhwydweithiau trafniadaeth leol [amlder a chost]; Canfyddiadau asiantaethau o'r ardal e.e. y cyfryngau, mudiadau lles, yr heddlu ac ati; dadansoddiad o ddosbarth cymdeithasol; mudiadau a grwpiau cymunedol; Ysgolion, colegau ac ati. – tablau perfformiad; Mannau cyfarfod yn y gymuned – Eglwysi, capeli, tafarndai, clybiau cymdeithasol, canolfannau cymunedol, cyfleusterau hamdden ac ati.

Byddai proffil cymuned yn cynnwys:

Braslun o'i hanes; Tirnodau lleol; gwasanaethau a chyfleusterau; Demograffeg [strwythur y boblogaeth]; Patrymau cyflogaeth a chyfleoedd hyfforddi; Cyfleusterau hamdden; Lefelau Incwm;

Yn defnyddio adnoddau megis:

Llyfrgelloedd cyhoeddus; y Rhyngrwyd - e.e. Gwefannau awdurdodau lleol; Tystiolaeth ffotograffig; gwybodaeth pobl leol; Canolfannau gwybodaeth i dwristiaid; papurau newydd lleol; Ystadegau o wahanol ffynonellau - cyfrifiad, arolygon, ystadegau trosedd ac ati.

Byddai modd diffinio cymuned fel ardal lle mae pobl yn byw ac yn teimlo'n gartrefol ac yn ddiogel, gydag ymdeimlad o dadogaeth a pherthyn. Fe'i nodweddir gan ymdeimlad o hunaniaeth sy'n deillio o gydwerthoedd a chyd-ddiwylliant, ac ymwybyddiaeth ohonyn nhw eu hunain fel pobl.

Gwahaniaetha'r rhan fwyaf o gymdeithasegwyr rhwng cymunedau gwledig a chymunedau trefol, gyda chymunedau gwledig yn cael eu hystyried yn glòs ac yn agos, a chymunedau trefol yn anghyfartal ac yn amheronol. Mae'n anodd categoreiddio cymunedau'r cymoedd fel hyn am iddynt gael eu creu gan y Chwyldro Diwydiannol, ond maent at ei gilydd yn wledig, â chanddynt ymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn sydd, fel arfer, yn nodweddu cymunedau gwledig.

Er enghraifft, yn y Rhondda yn Ne Cymru y ceir dwysedd poblogaeth uchaf Cymru, ond mae'n cynnwys cymunedau hawdd eu canfod, gwedd cymdeithasol agos ac ymdeimlad cryf o hunaniaeth a thiriogaeth.



Sesiwn 7

Creu rhaglen fodel

Gwahanol fodelau cynllunio

Ystod o ddulliau gwerthuso

Asesu risg

Egluro meddiant

Ymgymryd â gweithgaredd gan ddefnyddio model cynllunio

Canlyniadau Dysgu:

- Datblygu dealltwriaeth o'r angen am gydweithio ag eraill i gynllunio a gweithredu rhaglen [B3]
- Dadansoddi'r broses o ddatblygu cynllun mewn partneriaeth ag eraill er mwyn cyflawni nodau ac amcanion y prosiect y cytunwyd arno [B4]
- Archwilio'r ystod o ddulliau sydd ar gael i werthuso llwyddiant y prosiect [B6]
- Adnabod yr angen am gadw cofnodion gwerthuso priodol i'r prosiect [B7]
- Asesu'r anghenion unigolion ac ymateb mewn ffordd briodol [C5]

Adnoddau ar gyfer Sesiwn 7:

Taflunydd

Taflenni Adnoddau

7.1

7.2

OHT: 7.1

Cynllunio Rhaglen

Mae cynllunio'n bwysig mewn gwaith ieuenctid

PAM?

- Er mwyn gwirio bod eich gwaith yn briodol neu werth chweil
- Er mwyn darganfod a yw cynlluniau'n ddichonadwy neu ymarferol
- Er mwyn trefnu popeth yn iawn
- Er mwyn defnyddio staff ac adnoddau'n effeithlon
- Gwerthuso ac elwa ar lwyddiannau a methiannau

SUT?

Un model a ddefnyddir yw

N A O M I E

TAFLEN ADNODDAU:7.1

CYNLLUNIO RHAGLEN

Mae Gwaith Ieuenctid a Chymuned effeithiol yn dibynnu ar ddefnyddio strategaeth gynllunio addas.

Cam 2 - Adnabod Nod/au

Cam 3 - Egluro Amcanion

Cam 4 - Penderfynu ar Ddull Darparu

Cam 5 - Gweithredu'r Rhaglen

Cam 6 - Gwerthuso

Dylid adnabod anghenion unrhyw grŵp, sefydliad neu unigolyn gan ddefnyddio technegau ymchwil priodol – gall y rhain amrywio o drafod materion a godwyd gan y grŵp i arfer technegau ymchwil mwy soffistigedig (gweler Taflen Adnoddau 6.2 ar ddsbarthiad anghenion Bradshaw).

Dylai Nodau unrhyw raglen adlewyrchu ymateb priodol i'r anghenion a nodwyd. Gall y nodau fod ar ffurf bwriadau cyffredinol e.e. 'Cynnwys pobl ifanc mewn gweithgareddau cymunedol'; 'Datblygu hunanhyder pobl ifanc'.

Dylai'r nodau fod yn gyson â gwerthoedd ac egwyddorion y sefydliad, gan adlewyrchu'r Datganiad Cwricwlwm ar gyfer Cymru.

Ceir sawl model cynllunio sydd o ddefnydd i weithwyr ieuenctid a chymuned; y peth cyffredin ym mhob un yw'r cysyniad o broses systematig , gyda man cychwyn clir a chanlyniad arfaethedig.

Amlinellir dau fodel o'r fath isod.

Y Ddolen N.A.O.M.I.E..

Cam 1 - Adnabod Angen

Mae Amcanion y rhaglen ar ffurf set o dasgau, gweithgareddau a digwyddiadau penodol sydd â chysylltiad uniongyrchol â chyflawni'r nod/au.

Mae'n haws deall amcanion yn _fel meini prawf 'S.M.A.R.G.'. sef:

- Penodol.
- Mesuradwy.
- Cyflawnadwy.
- Perthnasol.
- O fewn Amserlen.

e.e. 'Erbyn diwedd y sesiwn cyntaf bydd y gwedi cytuno ar thema i'r murlun

'Erbyn diwedd yr ail sesiwn bydd y grŵp wedi ysgrifennu llythyrau at siopau paent lleol.'

7.1 Parhad

Mae amcanion yn debyg iawn i 'ganlyniadau dysgu', a galant ymwneud â meysydd megis:

Gwybodaeth; sgiliau cymdeithasol, corfforol a meddyliol; gweithredu; agweddau meddwl; gwerthoedd a chymhwysedd personol.

Dylai'r dulliau fod yn briodol i'r gweithgareddau angenrheidiol i gyflawni'r amcanion, a dylent fod yn gyson ag athrawiaeth ac arferion gwaith ieuencid. Dylent fod yn briodol hefyd i lefelau gwybodaeth a sgiliau'r grŵp.

Mae gweithredu yn ei hanfod yn golygu darparu'r rhaglen, ond gall gynnwys ystyried adnoddau, dynol ac eraill, sy'n ofynnol ar gyfer darpariaeth effeithiol, e.e. – arian, defnyddiau, cyfarpar, adeilad, lefel sgiliau a gwybodaeth y rhai sy'n cymryd rhan ayb.

Gellir gwerthuso mewn sawl ffordd, ond yn ei hanfod dylid gwerthuso canlyniadau'r rhaglen yn ôl y nodau a'r amcanion gwreiddiol. Dylai gwerthuso nodi llwyddiant a methiant y rhaglen ynghyd ag ymgais i ddadansoddi'r rhesymau dros y ddau beth, gan osod seiliau cadarn arfer da at y dyfodol.

Hyfforddi er mwyn Trawsffurfio – Y Model Parabola.

Seren Fore *

Gweithredu

Sefydliad		Amheuaeth gweithrediadau
Cyllid	Gwerthuso	A yw'n gweithio'n dda?
Rhaglen		
Amcanion		Amheuaeth blaenoriaethau
Resources	Evaluation	A yw ein gwerthoedd a'n blaenoriaethau'n iawn?
Nod		Amheuaeth foesebol
Gwerthoedd		A ydym yn gwneud y peth iawn?
		Breuddwyd Newydd

7.1 Parhad

Gelwir y model hwn y model parabola am ei fod yn ein helpu i ddeall oes, twf a datblygiad grwpiau sy'n cymryd rhan mewn prosiectau.

Y gwahanol gamau yn y model

Breuddwyd

Mae'r rhan fwyaf o brosiectau newydd yn cychwyn fel 'breuddwyd'. Gall hwn fod yn freuddwyd sy'n deillio o weledigaeth rhywun o bosibilrwydd newydd sy'n cael ei rannu a'i ddatblygu ar y cyd â phobl eraill, neu gall ddeillio o grŵp o bobl sydd wedi dod at ei gilydd er mwyn meddwl sut i ddatrys problem yn eu cymuned neu i chwilio am sut i ateb anghenion y gymuned honno. Gall y weledigaeth yn ei chrynswth fod yn amhosibl, ond dylid meddwl amdani fel seren fore sy'n arwain y prosiect.

Gwerthoedd

Ategir pob breuddwyd neu weledigaeth gan werthoedd cyffredin yn ymwneud ag unigolion, grwpiau a chymunedau.

Mae'n hanfodol gwneud y gwerthoedd ategol hyn mor eglur â phosibl. Yn aml iawn rydym yn cymryd yn ganiataol bod rhai gwerthoedd yn cael eu deall a'u rhannu gan bawb yn y grŵp. Nid yw hyn bob amser yn wir ac mae'n bwysig bod pawb yn deall ac yn derbyn gwerthoedd y prosiect.

Nodau

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth mae'n bwysig gosod nodau cyffredin a chytuno arnynt. Gellir gwneud hyn trwy gytuno ar amserlen gyffredin pryd y bydd y prosiect wedi cyrraedd safle neilltuol yn ei ddatblygiad.

Adnoddau

Rhaid inni benderfynu pa adnoddau sydd eu hangen arnom i gyrraedd ein nodau. Bydd hyn fel arfer yn golygu defnyddio neu ddatblygu grŵp o bobl ymroddgar a hyfforddedig a fydd yn rhannu gweledigaeth a gwerthoedd y prosiect. Gall y grŵp hwn gynnwys gweithwyr ar gontract, gweithwyr cyflogedig neu wirfoddolwyr. Ym mhob achos mae gweledigaeth glir, gyffredin a pherthynas rhwng aelodau'r tîm yn bwysig dros ben.

Yr adnoddau eraill y bydd galw amdanynt yn ôl pob tebyg fydd arian, deunyddiau, offer ac adeiladau.

Amcanion

Unwaith y bydd grŵp yn gwybod pa bobl ac adnoddau sydd ar gael bydd mewn sefyllfa i bennu amcanion realistig y gellir eu cyflawni sy'n cydymffurfio â'r meini prawf S.M.A.R.G..

7.1 Parhad

Cyllid

Rhaid i flaenoriaethau wrth ddyrannu cyllid adlewyrchu blaenoriaethau'r grŵp fel y cytunwyd arnynt, ac nid blaenoriaethau personol y bobl yn y grŵp sydd â'r grym mwyaf. Sut mae cyllid yn cael ei ddyrannu yw'r dangosydd gorau o werthoedd y prosiect.

Trefnu a Gweithredu

Mae hyn yn golygu penderfynu *pwyl* fydd yn gwneud *beth, pryd a ble*. Mae pennu tasgau'n effeithiol yn hollbwysig yn y cam hwn.

Y dirywiad

Mae'n debygol y bydd pob prosiect, ni waeth am ansawdd y cynllunio a'r adnoddau, yn cyrraedd rhyw bwynt lle mae amheuron yn codi a brwdfrydedd yn pallu. Mae'n hanfodol felly stopio o bryd i'w gilydd er mwyn *myfyrio, dadansoddi a gwerthuso*, i wirio nodau, roliau, perthnasoedd a chyflawniadau ac i ymdrin mewn ffordd onest ac agored ag unrhyw amheuron neu anawsterau sydd wedi codi. Gall hyn arwain at adolygu neu ailwerthuso blaenoriaethau a nodau neu at eu cadarnhau.

Ceir rhestr o rai o'r amheuron a all godi isod:

Amheuron gweithredu

Fel arfer dyma'r amheuaeth gyntaf ac mae'n codi cwestiynau megis – a yw'r prosiect yn gweithio'n dda.

A yw'r prosiect yn effeithlon. Dyma'r problemau hawsaf eu datrys ac os ydynt yn cael eu datrys dylai'r prosiect allu parhau i dyfu a datblygu.

Amheuron blaenoriaethau

Gall pobl ddechrau amau a yw'r blaenoriaethau'n iawn – os nad yw prosiect yn cyflawni'r disgwyliadau amdano mae'n debygol y bydd rhywun yn y grŵp yn amau'r blaenoriaethau gwreiddiol. Mae'n bwysig neilltuo amser i fyfyrion ac i ailwerthuso'r blaenoriaethau gwreiddiol os bydd angen gan gydnabod bod profiadau wrth redeg y prosiect yn gallu arwain at flaenoriaethau newydd nad oeddynt yn glir yn y cyfnod cynllunio.

Amheuron moesegol

Mae'r rhan fwyaf o brosiectau mewn gwaith ieuencid a chymuned yn golygu rhyw fath o ymyrryd ym mywydau pobl, ac oherwydd hynny gallant arwain at amheuron moesegol - *a ydym yn gwneud y peth iawn?; A yw ein hymyrryd yn ddymunol?* Mae'n debyg mai dyma'r amheuron mwyaf anodd. Yn aml iawn gall y sefyllfa newid ac nid yw'r nodau y cytunwyd arnynt yn wreiddiol yn berthnasol bellach. Y cwestiwn sylfaenol yma yw a oes gennym ni hawl i newid bywydau pobl, hyd yn oed os credwn ein bod yn gwneud lles.

TAFLEN ADNODDAU:7.2

CYNLLUN GWEITHREDU

CYNLLUNIO RHAGLEN

Dull Systematig o Gynllunio

Mae angen proses i droi eich syniadau'n weithredoedd, sef cynllunio. Gall y broses a'r gweithredoedd sy'n dilyn fod yn haws os ewch ati mewn ffordd systematig. Mae dull systematig yn ei gwneud yn bosibl ichi wneud y canlynol:

- gwirio bod eich gwaith yn briodol/werth chweil
- darganfod a yw eich cynlluniau'n ddichonadwy/ymarferol
- trefnu popeth yn iawn
- defnyddio staff ac adnoddau'n effeithiol ac yn effeithlon; a
- gwerthuso ac elwa ar lwyddiant a methiant fel ei gilydd

Ar y cychwyn gall y dull hwn gymryd amser ond gan y bydd eich gweithredu'n fwy effeithiol byddwch yn arbed amser yn y pen draw.

1. Beth yw ANGEN?

- y person ifanc
- y grŵp/clwb
- y staff
- y sefydliad

2. Pa NOD sydd gennyf?

- Pa gynnydd rwyf am ei wneud? Pam?
- Beth rwyf i am ei wneud yn union? Pam?

3. Pa AMCANION sydd gennyf?

- Beth a all pobl eraill ei wneud yn sgil y gweithredu?
- Sut mae mesur llwyddiant?
- Beth fydd y canlyniadau?
- Pa amserlen sydd gennyf?
- Pa safonau a fydd yn dynodi llwyddiant?

4. Pa DDULL sydd orau yn yr achos hwn?

- A ddylwn i weithio gydag unigolion, parau, grwpiau o'r un rhyw, ac oedolion?
- Pa weithgaredd sydd fwyaf priodol?
- Pa adnoddau sydd gennyf/sydd eu hangen?
- Faint o amser sydd gennyf?

7.2 Parhad

5. Sut mae GWEITHREDU'r cynllun?

➤ Ymlaen â chi!

6. Sut mae GWERTHUSO'r cynllun?


➤ Beth oedd yn dda?

➤ Pa anawsterau?

➤ Beth fyddaf n ei wneud yn wahanol y tro nesaf?

➤ A gyflawnwyd yr amcanion?

➤ Pa angen/anghenion newydd sydd wedi codi?



TAFLEN ADNODDAU: 7.3a

Ffurflen Asesu Risg

Enw _____
Gweithgaredd _____
Unigolion a Effeithir _____

Perygl Potensial	Niwed Posibl	Risg	Rhagofalon

TAFLEN ADNODDAU: 7.3b

Ffurflen Aseu Risg

Enw _____ *Unrhyw Un*

Gweithgaredd *Defnyddio'r adeilad*

Unigolion a Effeithir _____ *Pawb yn y ganolfan a staff*

Perygl Potensial	Niwed Posibl	Risg	Rhagofalon
Carpedi	Baglu	Canolig	Tynnu teils rhydd
Pentwr o o gadeiriau	Disgyn ar bobl	Uchel	Neilltuo
Gwifrau rhydd yn y swyddfa	Baglu	Canolig	Hysbysu rhai yn y am y perygl
Cebblau trydan rhydd	Sioc drydanol a marwolaeth	Uchel	Cau'r ganolfan er mwyn cynnal atgyweirau ar unwaith

Sesiwn 8

Ymarferiad Cynllunio

Anghenion a materion llosg sefydliadol

Ymwneud pobl ifanc

Ffactorau allanol

Materion moesegol [sefyllfaoedd ymarferol]

Sesiynau tiwtorial [½ awr y pen] i'w cynnal cyn y sesiwn nesaf

Canlyniadau Dysgu:

- Datblygu dealltwriaeth o'r angen i weithio gyda phobl eraill i gynllunio a gweithredu rhaglen
- Dadansoddi'r broses o ddatblygu cynllun mewn partneriaeth ag eraill er mwyn cyflawni nodau ac amcanion y prosiect y cytunwyd arno
- Sylweddoli'r angen am adnabod tasgau allweddol gan gynnwys datblygu amserlen i'r prosiect a chostau
- Archwilio'r ystod o ddulliau sydd ar gael i werthuso llwyddiant y prosiect
- Adnabod yr angen i gadw cofnodion gwerthuso priodol i'r prosiect

Adnoddau ar gyfer Sesiwn 8:

Taflunydd	Taflenni Adnoddau
8.1	8.1
	8.2

Taflenni adnoddau i'w llungopio i bawb sy'n cymryd rhan

TAFLEN ADNODDAU:8.1

Ymarfer Efelychu Gwaith Ieuenctid

Fel tîm o weithwyr yn y ganolfan a ddisgrifir isod rydych yn cwrdd er mwyn cynllunio rhaglen fras ar gyfer y flwyddyn yn dechrau yn Ionawr 2004

Wrth gynllunio cadwch y canlynol mewn cof:

- ❖ *Y blaenoriaethau gwaith ieuenctid a nodwyd eisoes gan y grŵp mewn trafodaethau*
- ❖ *Dulliau o weithio gyda phobl ifanc a nodwyd gan y grŵp*
- ❖ *Y Datganiad Cwricwlwm ar gyfer Cymru*
- ❖ *Polisiâu diweddar y llywodraeth ar ddieithrwch cymdeithasol, a datblygu gwaith rhwng asiantaethau ymhellach*
- ❖ *Unrhyw gyfyngiadau a allai effeithio ar gwmpas eich cynlluniau a'ch gweithgarwch*
- ❖ *Yr anghenion a nodwyd gennych i'r gymuned yr ydych yn gweithio ynddi*
- ❖ *Polisi'r sir*

Lluniwch y canlynol ac adrodd arnynt wrth y grŵp:

- ❖ Rhestr o'r blaenoriaethau a nodwyd gennych
- ❖ Rhestr o'r cyfyngiadau a allai effeithio ar y ganolfan hon

- ❖ Disgrifiad o sut y byddech yn gweithredu eich blaenoriaethau a sut y gallech osgoi neu leihau effaith y cyfyngiadau a nodwyd gennych

- ❖ Amlinelliad o'ch rhaglen

Manylion am y Ganolfan:

Staff:

Un gweithiwr cymwysedig yn gweithio deg sesiwn yr wythnos: Pedwar gweithiwr rhan-amser yn gweithio pum sesiwn yr un bob wythnos – mae dau ohonynt yn brofiadol ac wedi cwblhau'r rhaglen hyfforddi sylfaenol ran-amser; mae'r ddau arall yn y ganolfan ers blwyddyn. Nid ydynt yn sicr a ddylent ddilyn y rhaglen hyfforddi, yn rhannol oherwydd diffyg hyder ac yn rhannol am fod y rhaglen yn cael ei darparu ar benwythnosau. Mae dau hyfforddwr gweithgareddau yn cael eu cyflogi am £12.00 yr awr am ddwy noson yr wythnos ar gyfer codi pwysau a Gwobr Dug Caeredin.

Adeilad:

Hen ysgol gynradd: mae adeiladwaith yr adeilad yn weddol, ond mae ôl traul ar yr addurniadau, sy'n creu argraff flêr y tu allan a'r tu mewn. Gweler y cynllun.

8.1 Parhad

Adnoddau ac Offer:

Bwrdd snwcer, bwrdd pŵl, cyfarpar codi pwysau, a chegin gyda ffwrn gyffredin, oergell, cyllyll a ffyrç a llestri. Bwrdd tennis bwrdd (wedi'i niweidio i raddau), dec disgo, cyfarpar sain (un wedi torri), teledu (diffygiol: dim ond BBC2). Mae rhai cadeiriau esmwyth treuliedig yn y lolfa a byrddau a chadeiriau i 20 o bobl yn y gegin a'r bar coffi.

Lleoliad:

Mewn tref yn y Cymoedd, gyda phoblogaeth o ryw 21,000. Mae'r hen batrymau gwaith wedi cael eu disodli gan amrywiaeth o ddiwydiannau ysgafn ar yr ystad ddiwydiannol gyfagos. Mae diweithdra ymhlith dynion yn 10% ar hyn o bryd gyda ffigur uwch ymhlith rhai 16-22 a 55+. Ceir rhai cyfleoedd gwaith i fenywod, ond ar y cyfan yn y sector di-sgiliau ar gyflogau isel ar yr ystad ddiwydiannol.

Mae mwy a mwy o rieni unigol ifanc yn yr ardal a rhai mewn oed ysgol. Mae cyfran y rhai wedi ymddeol yn uchel iawn [tua 30%]. Ceir pryder cynyddol yn yr ardal am ddefnyddio cyffuriau ymhlith popeth ifanc, y mae rhieni llawer ohonynt â hanes o ddefnyddio cyffuriau a diweithdra hirdymor.

Ceir tystiolaeth yn yr ardal o fandaliaeth a graffiti a phroblemau gyda dwyn ceir.

Cyllid:

Ar ôl talu costau rhedeg a chyflogau staff mae cyllid o £3,000 ar gael gan yr awdurdod lleol.

Traddodiadau ac Agweddau Meddwl:

Yn y gorffennol, mae'r ganolfan wedi cael ei gweld yn bennaf fel clwb ieuencid sydd wedi tueddu i ddarparu ar gyfer dynion ifanc. Er bod 30% o'r aelodau'n fenyw maent wedi tueddu i fod yn oddefol o ran y gweithgareddau. Yn y gorffennol mae clwb cinio i bensiynwyr wedi cael ei gynnal. Mae hwn yn digwydd unwaith yr wythnos o 12-30.p.m. i 3.00.p.m. ar ddydd Llun ac mae'n talu amdano'i hun.

Pwyllgor Rheoli:

Mae'r pwyllgor yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn ac mae'n cynnwys dau YH, cynghorydd o'r awdurdod lleol, Dirprwy Bennaeth yr ysgol uwchradd leol, swyddog cydlynau ieuencid yr heddlu a'r ficer lleol. At ei gilydd maent yn gefnogol i'r gweithiwr amser llawn ond maent yn pryderu am broblemau cymdeithasol cynyddol yn yr ardal.

8.1 Parhad

Polisi'r Sir:

Mae'r sir newydd gyhoeddi datganaid polisi sy'n nodi ymrwymiad i gyfle cyfartal a rhagor o gyfranogi gan ddefnyddwyr yng ngweithgarwch y canolfannau [yn sgil adroddiad beirniadol gan ESTYN]. Mae'r datganiad hwn wedi cael croeso cymysg gan staff yn y sir. Mae gan y sir bolisi na cheir cynnal rhai gweithgareddau corfforol ond pan fydd hyfforddwr cymwys yn bresennol. Mae cyfran helaeth o'r bobl yn yr ardal ar y cyrion ac mae gwneuthuwyr polisi'r sir yn effro i agenda 'cynhwysiant cymdeithasol' y llywodraeth er nad ydynt yn frwd iawn drosti, ac eithrio lle y gall ddod ag incwm i mewn. Ceir rhaglen hyfforddiant 'mewn swydd' ar gyfer gweithwyr ieuenctid ar draws y sir sy'n cael eui chynnal am chwe phenwythnos mewn blwyddyn.

Defnyddwyr:

Ac eithrio'r clwb cinio i bensynwyr mae'r rhan fwyaf o'r bobl sy'n defnyddio'r ganolfan yn bobl ifanc mewn oed ysgol, y rhan fwyaf ohonynt yn wryw a dosbarth gweithiol. Defnyddir y ganolfan yn bennaf gyda'r nosau, er bod criw bychan o bobl ifanc ddiwaith wedi dechrau ei defnyddio drwy'r dydd, yn ebbennaf i chwarae pwwl a snwcer. Mae'r ysgol leol wedi holi am gael defnyddio'r ganolfan ar gyfer rhaglenni addysg amgen gan gynnig talu am ei defnyddio.



TAFLEN ADNODDAU:8.2a

Gwerthuso a Monitro

Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl i'r sefydliad asesu pa mor dda yw o ran cyflawni ei nodau. Gwneir hyn trwy ddefnyddio:

- **Dangosyddion Perfformiad**
Unrhyw fesurau sydd yn ei gwneud yn bosibl i'r sefydliad fonitro ei waith e.e. nifer y bobl sy'n mynychu
- **Targedau Perfformiad**
Pennu'r disgwyliad isaf. Dylai fod yn bosibl cyrraedd y targedau ond dylent ragori ar berfformiadau blaenorol e.e. ymdrin â 100 o gleientiaid
- **Meincnodi**
Targedau yn ôl mesurau cenedlaethol neu leol y cytunwyd arnynt er mwyn mesur cynnydd.
Gallai sefydliad 'feincnodi' ei gyflawniadau yn ôl cyflawniadau sefydliadau tebyg

Pam Gwerthuso?

- Er eich mwyn eich hun
- Er mwyn gwella gwaith gyda'r cleientiaid
- Cyrff cyllido

- Pwyllgorau rheoli

Beth sy'n cael ei fesur?

- Maint ac Ansawdd
- Gwerth gorau – Gwasanaeth cost-effeithiol
- Mewnbwn yn ôl Allbwn
- Y ffordd orau o wneud y gwaith

Sut mae gwerthuso?

- Yn fewnol
- Yn allanol
- Yn anffurfiol
- Yn ffurfiol

Ffactorau o Bwys

- Gwnewch adolygiad o'r prosiect sy'n cynnwys pawb bob tro e.e. staff, gwirfoddolwyr, cleientiaid
- Gweithredwch bob amser ar ganylnaiadau'r gwerthusiad
- Dylid gwerthuso'r elfennau llwyddiannus hefyd!

TAFLEN ADNODDAU:8.2b

Dadansoddiad SWOT

Cryfderau

Gwendidau

Cyfleoedd

Bygythion

TAFLEN ADNODDAU:8.3

YDYCH CHI ERIOED.....?

Mewn grwpiau bychain trafodwch rai 'troeon pan oeddech yn y sefyllfaoedd hyn.

COFIWCH:

Mae gennych hawl i beidio ag ateb heb ddweud pam

Nodwch yn glir a ddylid cadw eich ateb o fewn y grŵp bychan yn unig

YDYCH CHI ERIOED

Wedi cael eich stopio gan yr heddlu?

YDYCH CHI ERIOED

Wedi dweud celwydd?

YDYCH CHI ERIOED

Wedi dweud eich bod yn sâl pan nad oeddech chi ddim?

YDYCH CHI ERIOED

Wedi meddwi gymaint nes anghofio popeth?

YDYCH CHI ERIOED

Wedi gwneud rhywbeth anghyfreithlon?

YDYCH CHI ERIOED

Wedi cael gormod o newid a dweud dim?

YDYCH CHI ERIOED

Wedi dweud celwyd am eich oed?

YDYCH CHI ERIOED

Wedi anghofio rhywbeth pwysig iawn?

YDYCH CHI ERIOED

Wedi dwyn rhywbeth o'r gwaith?

TAFLEN ADNODDAU:8.4

Materion Moesegol mewn Gwaith Ieuentid

Mewn grwpiau bychain edrychwch ar y sefyllfaoedd hyn a rhoi adborth arnynt i'r priif grŵp

Sefyllfa 1

Mae gweithwyr ieuentid yn mynd â grŵp o bobl ifanc 16 a 17 oed i rywle am sesiwn ar adeiladu timau mewn canolfan breswyl. Does dim alcohol i fod yn y ganolfan. Mae'r gweithwyr ieuentid a'r bobl ifanc yn dod ag alcohol i'r ganolfan ac yn ei yfed gyda'i gilydd cyn mynd yn dawel i'r gwely.

Pa faterion ehangach sydd yma?

Berth petai difrod wedi digwydd?

A fyddai hyn yn gwneud pethau'n wahanol?

Sefyllfa 2

Mae person ifanc 13 oed yn gofyn am sigarét. Am eich bod yn credu y bydd hyn yn ei dawelu rydych yn rhoi un iddo ac mae'n ei smygu.

Pa faterion ehangach sydd yma?

A fyddai cyfrifoldebau rhiant gennych?

Beth petaech chi wedi rhoi'r sigarét iddo er mwyn iddo feddwl amdanoch fel ffrind?

Sefyllfa 3

Rydych yn cael cynnig arian i weithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc anabl. Gwyddoch na fydd yr arian yn cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl fel hyn ond mae mawr angen yr arian arnoch i gynnal y gwaith a wnewch gyda'r bobl ifanc dan anfantais gymdeithasol sy'n rhan o'r prosiect yn barod.

A yw'n iawn derbyn yr arian? Pam?

Taflen adnoddau 8.4 parhad

Sefyllfa 4

Rydych ar fin mynd â grŵp i ffwrdd am benwythnos. Sylwch fod un person ifanc yn tarfu ar weddill y grŵp, felly rydych yn ei wrthod. Er ei fod wedi gwneud cais ysgrifenedig i fynychu'r penwythnos, rydych yn dweud wrtho nad oes lle ar ôl.

A yw'n iawn dweud celwydd wrth y person ifanc? Pam?

Sefyllfa 5

Mae person ifanc yn dweud wrthyh fod oedolyn wedi ymosod arno neu arni'n gorfforol. Mae'n gofyn ichi gadw'r mater yn gyfrinach.

Rydych yn penderfynu dweud dim.

A yw hyn yn iawn? Pam?

Sefyllfa 6

Rydych mewn tafarn a gwelwch bobl ifanc o'ch clwb yn cael diod yn y gornel. Mae aelod hynaf y grŵp yn 15 oed. Rydych yn penderfynu gwneud dim.

A yw hyn yn briodol? Pam?

(Beth os bydd rhywun ifanc meddw mewn damwain car y noson honno?)

TAFLEN ADNODDAU:8. 5

Chwarae Rôl Moesegol

I'w gwneud fel chwarae rôl neu i'w drafod mewn grwpiau

Chwarae Rôl 1

Mae tad dig un o'r bobl ifanc yn cyrraedd y clwb ieuencid un noson yn mynnu cael gwybod a yw ei fab yno. Mae'r gweithwyr ieuencid yn gwybod ei fod yn yr ystafell deledu, ar ôl cyrraedd yn gynharach a'i drwyn yn gwaedu, yn dweud fod ei dad wedi ei guro.

1. Chwaraewch y sefyllfa i ddatrys y mater
2. A oes goblygiadau ehangach i'r ateb?

Chwarae Rôl 2

Mae cydweithiwr yn caru gyda menyw ifanc 18 oed. Cyfarfu'r ddau pan oedd yn gweithio gyda hi a'i ffrindiau yn y prosiect. Mae hi'n dal yn 'gleient' i'r prosiect.

1. Chwaraewch rôl cyfarfod gyda'r cydweithiwr
2. Oes rhywbeth yn bod ar y berthynas? Pam?

Chwarae Rôl 3

Rydych yn gweithio mewn cymuned dan anfanteision mawr lle mae lefel diweithdra ymhlith dynion yn 50%. Mae'r bobl sydd mewn gwaith yno yn ennill llawer llai na'r lleiafswm cyflog cenedlaethol. Mae'ch cyflog fel gweithiwr yn llawer mwy na'r cyfartaledd.

1. Actiwch sefyllfa lle mae'r mater yn cael ei godi
2. A ddylech ofyn am lai o gyflog?

Chwarae Rôl 4

Mae pobl ifanc ym Mhrosiect Ieuencid Nefacwmbach yn talu am eu diodydd ac mae'r siop fwyd yn gwneud ychydig bacho elw. Yn dâl am eu gwaith caled mae rheolwr/wraig y prosiect yn rhoi diodydd am ddim i'r staff.

1. Actiwch sefyllfa lle mae'r bobl ifanc wedi herio'r drefn
2. A oes rhywbeth yn bod ar hyn? Pam?

Sesiynau 9 a 10

Gwaith Grŵp

Gweithio gyda grwpiau – Dulliau Arwain – Defnyddio
Sesiwn 8 i ystyried safbwyntiau

Cyfathrebu

Canlyniadau Dysgu sydd o gymorth

Canlyniadau Dysgu:

Adnabod yr angen am greu amgylchfyd addas i
ddysgu mewn grwpiau [A3]

Nodi'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i hwyluso
gwaith pobl ifanc mewn grwpiau [A4]

Mapio datblygiad personol mewn sgiliau cyfathrebu
[C2]

Adnoddau ar gyfer Sesiwn 9 a 10:

Taflunydd	Taflenni Adnoddau
9.1	9.1
9.2	
9.3	
9.4	
9.5	
9.6	

Llungopïo taflenni adnoddau i bawb sy'n cymryd rhan

TAFLEN ADNODDAU 9.1

Beth yw ystyr grŵp?

A. Geiriadur y Brifysgol:

Cwmni neu gynulliad bychan. Cylch, twr, bagad, casgliad

B. Diffiniad Cymdeithasegol

Grŵp cymdeithasol yw criw o bobl sy'n rhyngweithio â'i gilydd yn rheolaidd. Mae'r rhyngweithio rheolaidd hwn yn tueddu i glymu'r aelodau'n uned ar wahân gyda hunaniaeth gymdeithasol gyffredin. Gall aelodau grŵp ddisgwyl gwahanol fathau o ymddygiad gan ei gilydd nad ydynt yn eu disgwyl gan bobl eraill.

Anthony Giddens (1993) Sociology (tudalen 285)

Pa bethau annhebyg a thebyg sydd?

TAFLEN ADNODDAU 9.2

Fy roliau i

Yn eich grŵp trafodwch y roliau sydd gennych yn ystod wythnos gyffredin. Edrychwch ar y ffordd ddelfrydol bosibl o gyflawni pob rôl (*nid oes angen ichi sôn yn benodol am gyflawni pob rôl*).

Rôl	Disgwyliadau'r Rôl

TAFLEN ADNODDAU:9.3

Camau datblygiad mewn grwpiau:

Er bod modd defnyddio technegau i annog grwpiau, nid peiriannau mo grwpiau y gall un gweithiwr medrus eu rhedeg. Daw'r grŵp i drefnu ei berthnasoedd ei hun o ran awdurdod, grym a rhyngweithiad personol.

Ceir sawl ffordd o ddisgrifio bywyd y grŵp. Mae Tuckman yn rhestru pump.

Ymfurfio: Lle mae dibyniaeth ar yr arweinydd a phrofion er mwyn gwybod natur y sefyllfa ac ymddygiad derbyniol

Ymdaro: Lle ceir gwrthdrawiad rhwng is-grwpiau, ymwrthod â'r arweinydd, pegynnu opsiynau ac emosiynau, ymwrthod â gofynion a thasgau


Ymgynefino: Lle mae norm yn dod i'r golwg a lle gwelir cyfnewid barn a theimlad mewn ffordd agored

Perfformio: Lle mae problemau rhyngpersonol yn cael eu datrys a gwneir ymdrech adeiladol i gwblhau'r dasg

Galaru: Lle mae'r grŵp yn chwalu



Gweithio mewn Grŵp



Manteision:

- Llai bygythiol i bobl swil
- Llai i'w wynebu
- Grŵp yn dod i adnabod ei gilydd
- Dynameg y grŵp
- Ysbryd tîm
- Rhannu galluoedd

OHP 9.3

Gweithio mewn Grŵp

Anfanteision:

- Cael eich cludo gan eraill
- Rhai pobl yn dominyddu
- Sgwrsio/Cymdeithasu
- Clic/Cau pobl allan
- Dynameg y grŵp
- Hyder
- Cyfrifoldeb am bobl eraill

OHP 9.4

Gweithio mewn Grŵp

Cyfathrebu heb eiriau:

- Faint o gyswllt llygad sydd?
- Sut mae pobl yn eistedd?
- Sut mae pobl yn cael sylw heb siarad?
- Sut mae pobl yn cynorthwyo ei gilydd heb eiriau?
- Pwy sy'n cyfathrebu lawer gyda phobl eraill heb siarad?



OHP 9.5

Gweithio mewn Grwp

Patrymau cyfathrebu!

- Pwy sy'n siarad lot?
- Pwy sydd heb siarad bron/o gwbl?
- Unrhyw newid yn lefelau cyfraniad pobl?
- Pwy sy'n siarad wrth bwy?
- A yw pobl yn gwrando ar ei gilydd?
- Sut mae pobl ddistaw yn cael eu trin?

Ffactorau sy'n Dylanwadu ar y Grŵp

- **Niferoedd yn y grŵp**
- **A yw aelodau'r grŵp yn adnabod ei gilydd, yn cydweithio**

A yw aelodau'r grŵp yn dewis ymuno yn y grŵp neu wedi cael eu gorfodi i ymuno

- **Am ba hyd y bydd y grwp gyda'i gilydd**
- **Natur yr arweiniad**
- **Pa mor gyfforddus yw'r amgylchedd**
- **Yr agenda gudd sydd gan bobl yn y grwp**
- **Natur y grwp o ran rhyw, hil, dosbarth ac oedran**
- **Tasg y grŵp**

TAFLEN ADNODDAU 9.4

Mathau o arweiniad

Awdurdodol

Yn pleidio neu'n dangos ufudd-dod i awdurdod.

Rhywun sy'n pleidio neu'n arfer polisiau awdurdodol.

Bod â gofal, gwneud pob penderfyniad, dweud wrth bobl eraill beth i'w wneud.

Democrataidd

Mewn perthynas ag egwyddorion democratiaeth.

Yn pleidio democratiaeth er budd y bobl gyffredin.

Poblogaidd gyda phawb neu er budd pawb.

Ymgynghori â phobl eraill, ystyried eu safbwyntiau, gadael i bobl benderfynu ar y cyd.

Laissez-faire

Enw arall yw unigolyddiaeth.

Athrawiaeth masnach rydd

Diffyg diddordeb a diffyg ymyrraeth ym materion pobl eraill

Gadael i bobl eraill ddewis beth i'w wneud, yn unigol.

Carismataidd

Nodwedd neu rym personol arbennig sy'n galluogi rhywun i

ddylanwadu ar bobl a'u hysbrydoli. Dawn neu bŵer dwyfol.

TAFLEN ADNODDAU 9.5

Mathau o Arweiniad

Yn eich grŵp rhestrwch bump arweinydd byd y gwyddoch rywfaint amdanynt. Ceisiwch ddiffinio dull arweiniad y bobl hyn gan roi tri rheswm am eich awgrym.

Arweinydd	Dull Arwain	Rhesymau
		1 2 3
		1 2 3
		1 2 3
		1 2 3
		1 2 3

TAFLEN ADNODDAU 9.6

Defnyddio Gwahanol Ddulliau Arwain

Mewn grwpiau, penderfynu beth wnaech chi ym mhob sefyllfa a pha ddulliau arwain a ddefnyddiech ym mhob achos

a. Rydych am baentio ystafell mewn clwb/prosiect ieuenctid

--

b. Ceir tân yn yr adeilad

--

c. Rydych am ddatblygu pwyllgor aelodau

--

d. Rydych yn arwain grwp o bobl ifanc heibio i afon gyflym

--


e. Mae rhywbeth yn cael ei ddwyn o'r clwb/prosiect yn ystod oriau agor

--

GÊM GYFATHREBU 9.1

Pysl 6 Darn


I'w dorri gyda siswrn a'i roi i'r grwpiau bychain. Ni cheir trafod y gwaith



GÊM GYFATHREBU 9.2

Pysl 8 Darn

I'w dorri gyda siswrn a'i roi i'r grwpiau bychain.. Ceir trafod.



ADNODD CYFATHREBU 9.1

Y Ddamwain Ffordd

Atebwch y cwestiynau ar ôl gwranddo ar y stori fer

G - GWIR
tystiolaeth

A - ANGHYWIR

? – Ddim yn gwybod/dim

- | | | | |
|---|---|---|---|
| 1. Soniodd rhywun am y ddamwain wrth yr heddlu | G | A | ? |
| 2. Roedd ar ei ffordd i'r ysbyty | G | A | ? |
| 3. Doedd y giât ar y groesfan ddim yn gweithio | G | A | ? |
| 4. Canodd gyrrwr y trê'n ei gorn | G | A | ? |
| 5. Roedd y lori'n cludo ffrwythau | G | A | ? |
| 6. Cafodd gyrrwr y lori ei frifo gan wydr | G | A | ? |
| 7. Cafodd y wraig ei hanafu ac mae hi'n gorwedd yn llonydd | G | A | ? |
| 8. Roedd y wraig yn gyrru'r car | G | A | ? |
| 9. Cafodd y car ei daro gan y car a'i wthio yn wysg ei ochr | G | A | ? |
| 10. Cafodd gyrrwr y trê'n ei anafu | G | A | ? |
| 11. Ar ôl y ddamwain roedd y lori'n wynebu'r gogledd | G | A | ? |
| 12. Roedd y car yn rhy agos i'r lori cyn y ddamwain | G | A | ? |

NODIADAU 9.1

Darllenwch hwn wrth y grŵp, ddwywaith, a gofyn iddynt ateb y cwestiynau. Trafodwch yr atebion a'r anawsterau. Ni chaiff y grŵp weld y cwestiynau cyn darllen y darn a ni chânt ysgrifennu nodiadau.

Y Ddamwain Ffordd

'O, mae hyn yn ofnadwy. Rhaid imi ffonio'r heddlu ar unwaith.'

'Roedd y trê'n yn teithio tua'r gogledd, ac fe drawodd y lori ar y groesfan. Roedd y corn yn dal i ganu. Llithrodd y lori trwy ongl sgwâr, taro'r car a'i wthio yn wysg ei ochr. Fe aeth ffrwythau ar draws y lôn. Mae gan y dyn anaf difrifol i'w ben. Mae yna waed dros bob man. Mae'r wraig yn gorwedd yn llonydd iawn. Rhaid imi fynd i'r ysbyty ar unwaith!'

Sesiynau 11 a 12

Mentora

Diwylliannau Ieuenctid

Cynhwysiant Cymdeithasol

Safbwyntiau Cymdeithasegol a Ffisiolegol ar:

- datblygiad pobl ifanc
- diwylliant (ieuenctid)

Trafod Gwrthdaro a Thrais

Rheoli Dicter

Hunan-ddelwedd (TA)

Hunanymwybyddiaeth a Datblygiad

Adnoddau ar gyfer Sesiwns 9 and 10:

Taflunydd	Taflenni Adnoddau
11.1	11.1
	11.2
	11.3
	11.4
	11.5
	11.6

Taflenni adnoddau i'w llungopïo i bawb yn y grwp

Canlyniadau Dysgu:

- Deall arwyddocâd y strategaethau sy'n galluogi pobl ifanc i ddod yn fwy hunanymwybodol, datblygu mwy o barch atynt eu hunain a meithrin eu hunan-barch trwy eu hannog i werthfawrogi eu cryfderau a dathlu a chefnogi cryfderau pobl eraill [A2]
- Cynnig strategaethau i alluogi pobl ifanc i ddelio â theimladau negyddol mewn ffordd adeiladol [A5]
- Ymchwilio'r ystod o ddulliau o weithio gyda phobl ifanc i'w galluogi i fyfyrion am eu datblygiad a'u dysgu [A6]
- Dadansoddi'r prosesau sy'n helpu pobl ifanc i drosglwyddo'r dysgu hwnnw at agweddau eraill ar eu bywydau [A7]

TAFLEN ADNODDAU:11.1

MENTORA

CHWILIO AM DDIFFINIAD

Nod:

- ❖ Datblygu cyd-ddealltwriaeth o fewn y grwpwn o derfynau'r gair 'mentora'.

Amcanion:

- ❖ Deall gwreiddiau mentora a sut mae'n cael ei gymhwysu ar hyn o bryd
- ❖ cymharu mentora, hyfforddi a chwnsela
- ymchwilio lle y gellir ei ddefnyddio'n effeithiol fel offeryn datblygu o fewn cyd-destun Gwaith Ieuencid



Mentora, Hyfforddi, Cwmsela

Mentora

Dull holistaidd o ddatblygu pobl ifanc

- ❖ yn canolbwyntio ar gyflawniad, cyrraedd nodau, gweithio i gyflawni potensial

Hyfforddi

- ❖ yn canolbwyntio ar gyflawni nodau ac amcanon yn llwyddiannus
- ❖ yn cael ei ddefnyddio'n aml yng nghyd-destun cyflogaeth

Cwmsela

- ❖ yn canolbwyntio ar faterion emosiynol
- ❖ yn canolbwyntio'n aml ar bersonoliaeth yn lle sgiliau neu botensial

TAFLEN ADNODDAU:11.2

Mentora – cofnod personol

Meddylwch am y bobl sydd wedi bod yn ddylanwadol ar eich datblygiad yn y gorffennol. Ewch trwy'r cwestiynau a ganlyn a chasglu rhestr o brofiadau cadarnhaol a negyddol wrth fentora.

- 1 Pa un o'ch athrawon yn yr ysgol a roddodd yr anogaeth fwyaf i chi? Beth a ddywedodd a roddodd ymdeimlad o hunan-werth i chi?
- 2 Pa un o'ch athrawon yn yr ysgol a'ch helpodd i gyflawni orau yn academaidd?
- 3 Os yw eich atebion i'r ddau gwestiwn uchod yn wahanol, eglurwch y gwahaniaethau o ran arddull.
4. Pwy, ar unrhyw adeg yn eich bywyd, a'h helpodd i gyflawni eich nodau (personol, proffesiynol neu academaidd)? Beth a ddywedodd neu beth a wnaeth i gael effaith o'r fath?

TAFLEN ADNODDAU:11.3

Perthnasoedd a Mentora – 4 Enghraifft

Ffynhonnell: Rhwydwaith Mentora Cenedlaethol 'Arweiniad i ysgolion'

Cyflwynwyd Robert i fentor gan ei ysgol oherwydd pryderon am ei ymddygiad a'i ddiffyg diddordeb yn ei waith. Roedd ei ffrindiau'n aml yn achosi trwbl, ond ef a gâi ei ddal a'i gosbi o hyd. Roedd ganddo allu academaidd cyfyngedig a phroblemau yn ei fywyd cartref/cymdeithasol. Roedd ei fentor, Mike, tu allan i'r ysgol, a weithiai i gwmni trydan.

Cynhaliwyd y berthynas fentora, ac ar ôl peth amser, gyda chydysyniad mam Robert a'r ysgol, trefnwyd i Robert dreulio un diwrnod bob pythefnos yng ngweithle Mike. Aeth â#i waith ysgol yno a gweithiai'n llawer caletach ar wahân i'w ffrindiau ac yng nghwmni oedolion.

Rhagwelwyd na fyddai Robert yn llwyddo i gwblhau Blwyddyn 11. Fodd bynnag, gwnaeth hynny, ac er na chafodd unrhyw lwyddiant academaidd, aeth i swydd amser llawn. Dywedodd Robert am Mike: 'mae'n rhoi lot o help i mi gyda mathemateg. Rwy'n hoffi siarad gyda fe. Rwy'n gwybod y galla i siarad gyda e os oes angen help arna i.'

Ffynhonnell: Cyfarwyddwr, Cyngor Kirklees - cyfweiliad

Q Beth yw eich barn am fentora?

A Rwy'n credu ei fod yn beth da. Rwy'n credu erioed ei fod yn ffordd effeithiol o ddatblygu pobl a chynorthwyo gyda'u gyrfa – mae'n beth positif.

Q Ydych eich rhaglen wedi parhau?

A Ydy. Mae'n broses barhaus ers sawl blynedd, fel rhan o'r rhaglen ddatblygu rheolwyr, ond mae'n bwysig iddo fod yn agored i bawb.

Q Beth mae e wedi'i gyflawni?

A Mae e wedi cael ei ddefnyddio'n bennaf gan bobl ar y rhaglenni cymwysterau mewn rheoli, yr holl ffordd o CMS i raddau Meistr. Rydyn ni wedi gweld pobl yn datblygu a gwella yn eu gwaith. Mae'n meithrin hyder ac yn helpu pobl i'w gwella eu hunain.

Q Beth hoffech chi ei weld yn digwydd gyda fe?

A Mae'n rhaid iddo gael ei ddilyn i'r pen. Mae'n bwysig iddo bara.

11.3 Parhad

Mentora ac Anghenion Arbennig

Arweinydd y Tîm Cwmsela, Rhaglen Ymwybyddiaeth Ieuenctid Sutton.

‘Mae llawer o'r perhwasoedd cwnsela sy'n cael eu creu gyda'r bobl ifanc yma yn berthnasoedd mentora mewn gwirionedd. Nid ni sy'n gosod yr agenda; rydym yn darganfod y nodau sydd ganddyn nhw, ac yn edrych ar ddulliau o'u cyflawni.’

Mae perhwasoedd mentora'n debygol o fod yn fwy personol, gyda phobl sy'n deall problemau ei gilydd. Po fwyaf anodd y broblem, mwyaf clos y berthynas, a pho fwyaf yr ymroddiad. Mewn achosion o'r fath gall mentor gael ei gysylltu â'r mentor o ran oed, hil a chefnidir.

Mae Rhaglen Ymwybyddiaeth Ieuenctid Sutton, sy'n cydnabod bod pobl ifanc yn defnyddio cyffuriau ac yn credu bod y gwasanaethau presennol allan o gysylltiad, yn cynnig tîm ymestyn, gweithdai addysg cyffuriau mewn ysgolion, rhaglen hyfforddi i wirfoddolwyr, a chwmsela unigol gan oedolion ifanc.

Yr Unol Daleithiau – Rhaglen Ddatblygu'r Ddinas Fewnol
Rosabeth Moss Kanter

Mae Rosabeth Moss Kanter, awdur o America ar astudiaethau rheoli a datblygu, wedi ymchwilio i arwyddocâd dosbarth a defnyddio mentora, o safbwynt datblygu dinasoedd mewnol. Hyrwyddwyd y rhaglen hon gan fusnes am ei fod yn credu mai marchnad fud oedd y ddinas fewnol.

‘...Mae cwmnïau wedi darganfod mai problemau economaidd yw problemau cymdeithasol ... mae datrys problemau hirbarhaol y sector cymdeithasol yn rhoi hwb mawr i'w busnesau eu hunain .. mai llai o ddiweithdra yn y ddinas fewnol yn golygu mwy o wario yn y ddinas fewnol.’

Sylwodd Kanter fod United Airlines un enghraifft o gwmni o'r fath; mae hwn wedi cychwyn mentrau Adnoddau Dynol, yn cynnwys rhaglen fentora a ddatblygwyd drwy ymgynghori â gweithwyr, er mwyn creu mentrau gwaith i rai sy'n byw mewn dinasoedd mewnol a oedd yn derbyn budd-daliadau cyn hynny.

TAFLEN ADNODDAU:11.4

ARWEINIAD

Mae arweiniad yn arwyddocaol o ran mentora oherwydd y berthynas rhwng y mentor, y sawl sy'n derbyn mentora a'r sefydliad sy'n comisiynu neu'n hyrwyddo'r mentora yn y lle cyntaf.

Arweinydd y sefydliad yw'r sawl sy'n gyfrifol am ddiffinio'i ddiwylliant; arddull yr arweiniad sy'n pennu natur y rhaglen fentora, ac mae'n darparu'r adnoddau sy'n cael effaith ar ei lwyddiant. Mae'n bwysig, felly, i unrhyw un sy'n bwriadu cyflwyno mentora ofyn dau gwestiwn ymlaen llaw:

- Pa arddull arwain sydd gen i a sut mae llunio'r rhaglen i gyd-fynd â natur y sefydliad sy'n comisiynu

A

- A yw'r arddull arwain yn ategu rhaglen fentora – ai mentora yw'r offeryn datblygu iawn i'r sefydliad hwn?

Rhaid i reolwyr neu arweinwyr prosiectau sy'n gobeithio cyflwyno mentora feddwl am ddisgwyliadau potensial rhai sy'n cael eu mentora. Mae'n bosibl y bod rhai sy'n cael eu mentora yn gobeithio y gall y mentoriaid eu hachub rywsut o amgylchedd anffafriol neu orfodi rhai sy'n gwneud penderfyniadau i newid eu meddwl.

Mae hyn yn annhebygol o fod yn bosibl, er y gall pobl sydd â dylanwad ddewis defnyddio mentora i wella sefydliad. Gall fod pobl ifanc yn ystyried eu mentoriaid fel cefnogwyr a all anwybyddu'r rheolau; mae'n bosibl y bydd mentoriaid yn teimlo bod disgwyl iddynt weithredu y tu hwnt i'w cylch gorchwyl. Mae angen i fentoriaid ddiffinio eu roliau eu hunain trwy edrych ar arddull arwain eu sefydliad. Rhaid iddynt ystyried i ba raddau y gall rhaglen fentora fod yn llwyddiannus, yn rhannol lwyddiannus, neu'n amhriodol yn y lle cyntaf.

Cofiwch nodweddion moesegol a moesol mentora – a yw'r rhain a'r arddull arwain yn gyfaddas?

Awduron ar Arweiniad

Ychydig iawn o ymchwili i ymddygiad dynol sydd wedi cael cymaint o sylw ac a roddir i arweiniad. Nid yw'n syndod mai ffocws milwrol neu wleidyddol sydd i lawer ohoni, a phan aeth awduron ar reoli ati i asesu effaith arweiniad yn y gweithle defnyddiwyd modelau milwrol eto. Wedi hynny, wrth i gymdeithas y 1970au ofyn i gymdeithas ymholi am ei gwerthoedd, daeth y pwyslais ar fodelau milwrol yn llai cyson.

Mae dysgu a datblygiad, y naill ffordd neu'r llall, ac yn enwedig os oes cysylltiad rhyngddynt a sefydliadau, yn cael eu rheoli. Mae'r cysylltiadau rhwng datblygiadau yng nghyd-destun y sefydliad, boed addysg ffurfiol ar gyfer arholiadau proffesiynol neu waith anffurfiol gan Weithwyr Deoledig, yn eu lle o reidrwydd.

Mae gan waith ieuencid ei gymysgedd od ei hun o ddulliau arwain a heriadau. Er enghraifft, sut mae dulliau rhai rhyddfrydig yn cyd-fynd â sefydliadau strwythuredig iawn megis yr heddlu neu rai sydd â chredoau moesol neilltuol megis rhai mudiadau ieuencid crefyddol?

11.4 Parhad

Sut mae mentor sy'n arddel un o'r uchod yn dyfeisio arddull mentora? Pa mor wahanol fydd i ddulliau mentora pobl eraill? Oes lle i ragdybiaethau personol?

Cymharer arddulliau dau awdur ar arweiniad (Adair ac Agyris). Pa effaith sydd gan eu dehongliadau gwahanol o arweiniad? Sut mae arddulliau arwain yn cyfyngu ar botensial gweithwyr ieuenctid?

Arweinwyr sy'n gyfrifol am ddiffinio diwylliant sefydliad. Sut mae mentoriaid yn ymateb i'r diwylliannau hynny? Sut mae hyn yn gweithio pan fydd y diwylliant yn seiliedig ar gôd anffurfiol neu led-anffurfiol) a ddiffinnir gan grwpiau o gyfoedion? Sut mae mentor sy'n cynrychioli un diwylliant yn ymateb i ddisgwyliadau gwahanol diwylliannau eraill? Sut mae hyn yn gweithio pan ddefnyddiwn ddiwylliant nid yn unig mewn perthynas â sefydliadau, ond â theulu a chenedligrwydd hefyd?

Y rhagolygon i waith ieuenctid yw fod mentora'n llawn her a dirgelion, ac mai peth da yw bod yn wylidwrus a pharod cyn cynnal unrhyw raglenni mentora.

John Adair

Themâu John Adair oedd gweithredu ac arwain. Mae ei lyfr *Effective Leadership* yn 1988 yn cael ei gydnabod yn aml fel y testun clasurol ar arweiniad.

Mae Adair yn pleidio'r syniad bod datblygiad yr unigolyn o gymorth wrth gyflawni tasgau. Mae'n cyfeirio o hyd at arweinwyr milwrol fel enghreifftiau o arweiniad effeithiol. Nid yw ei waith, er hynny, yn ffocysu ar dasgau i'r graddau ei fod yn anwybyddu'r elfen ddynol mewn gwaith – yn wir, nododd fod yr holwyr mwyaf llwyddiannus yn rhoi sylw cyfartal i'r canlynol:

- anghenion y dasg dan sylw
- y tîm sy'n ymgymryd â'r dasg yr unigolion yn y tîm

Chris Agyris

Ysgrifennodd Chris Agyris 'Challenging Leadership Effectiveness' yn 1976, lle heriodd y dybiaeth fod arweiniad yn gyfystyr â rheolaeth.

Sylwodd fel yr oedd datblygiadau cymdeithasol adiwyllynnol yr 1970au wedi ennyn amheuaeth ynghylch awdurdod y sefydliad a drwgdybiaeth tuag ato. Awgryma fod angen i arweinwyr ddysgu gan y bobl a'r amgylchiadau o'u cwrpas er mwyn bod yn effeithiol, ac i ategu ei ddamcaniaeth dyfeisiodd ddull datblygu a alwodd 'ddysgu dolen ddwbl'.

Yr oedd Argyris wedi sylwi bod y broses ddysgu fel arfer yn digwydd o fewn terfynau rhagosodedig, neu 'ddolen sengl'. Mae rhai sy'n cymryd rhan mewn dysgu dolen ddwbl yn ailymweld â'r rhagdybiaethau a 'ddysgwyd' ganddynt yn y gorffennol trwy hepgor y rheidrwydd i 'ennill' neu atgyfnerthu ymddygiad neu benderfyniadau'r gorffennol, gan gydnabod yn lle hynny y gwerth sydd mewn herio'r rhagdybiaethau hynny.

11.4 Parhad

Harrison a Stokes

Nododd Harrison a Stokes (1992) fod gan sefydliadau un o bedair tuedd ddiwylliannol:

Grym – Mae arweiniad yn seiliedig ar gadernid, cyfiawnder ac ewyllys da, tadol. Ei sylfaen yw derbyn hierarchaeth. Fe'i cynhelir gan berthynas bersonol rhwng arweinwyr, sy'n disgwyl gwasanaeth teyrngar, a dilynwyr, sy'n dibynnu ar gyfeiriad a sicrwydd eu harweinwyr. Gall y berthynas fod yn llawn ofn, dryswch a chynllwyn oni bai fod stwrythrau a systemau da yn bod i wneud y gwaith.

Rôl – Y gwerthoedd yw trefn, dibynadwyaeth, rhesymoldeb a chysondeb. Mae awdurdod a chyfrifoldeb yn cael eu dirprwyo ar i lawr. Maent yn ei chael yn anodd ymateb i newidiadau mewn ffordd gadarnhaol yn rhannol am eu bod mor amheronol ac am nad ydynt yn rhoi annibyniaeth a dewis i aelodau ar lefelau is. Gallant atal pobl rhag bod yn greadigol.

Cyflawniad– Mae pobl yn teimlo eu bod yn gweithio tuag at rywbeth mwy nag ydynt. Mae pobl yn goruchwyllo eu gwaith eu hunain heb gyfarwyddyd oddi uchod. Gwrandewir ar awgrymiadau ac edrychir ar gamgymeriadau fel cyfleoedd dysgu. Mae pobl mewn ysbryd da, ac mae pawb yn gweithio'n dda mewn timau, yn rhannol am fod y grŵp yn teimlo ei fod yn arbennig. Fel arfer mae pobl nad ydynt yn rhannu gwerthoedd ac ymroddiad sylfaenol y sefydliad yn teimlo'n anghyfforddus ac fel arfer maent yn gadael.

Cymorth – mae pobl yn helpu ei gilydd y tu hwnt i ofynion ffurfiol y gwaith. Mae recriwtio'n cynnwys pwysu ar awydd pobl i

gydweithio a gofalu am bobl eraill. Mae'r sefydliad a'i bobl yn gofalu am ei gilydd. Dethlir cyflawniadau. Rhoddir gwerth ar gynghanedd a cheisir osgoi gwrthdaro, ond y canlyniad weithiau yw fod materion pwysig yn aros heb eu datrys.

David Megginson

Cysylltodd Megginson fentora â roliau diwylliannol. Creodd fodel i'w gymhwyso at y roliau a ddiffiniwyd gan Harrison a Stokes er mwyn asesu pa fath o gymorth y gall sefydliad ei ddarparu. Ei awgrymiadau yw:

- Mae diwylliannau grym yn elyniaethus i helpu yn gyffredinol
- Mae diwylliannau rôl yn gweld gwerth mewn cyfarwyddo manwl y gellir ei ragweld
- Mae diwylliannau tasg yn pwysleisio canlyniadau ac felly'n pwysleisio hyfforddi

Mae diwylliannau person yn cysylltu'n naturiol â dull bywyd cyfan, sy'n nodweddu mentora

Julie Hay

Mae Hay wedi ysgrifennu *Transformational Mentoring* (1995) sy'n cynnig golwg gwahanol ar y dyb gyffredin mewn mentora, sef bod y mentor yn hŷn neu'n uwchraddol mewn rhyw ffordd.

Mae Hay'n awgrymu, fel Megginson, y gall y sawl sy'n cael ei fentora ddewis mentor, ni waeth am ei swydd na'i statws, ac y gall y mentor fod yn gydradd.

TAFLEN ADNODDAU:11.5



Ymyriad Proffesiynol:

Mae gan staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn addysg anffurfiol gyfrifoldeb personol amdanynt eu hunain ac am natur eu hymyriad. Dylent gynllunio a myfyrio am bob agwedd ar yr ymyryd a threfnu eu gwaith er mwyn gwneud hynny. Rhaid iddynt fod yn ymwybodol bob amser o'u rôl mewn gwahanol gyd-destunau, y problemau tebygol ym mhob achos, pwrpas eu hymyriad, y cyfyngiadau ar eu rôl a'u grym a'r syniadau diweddaraf am arfer da yn y math o ymyriad dan sylw. Dylent fod yn ymwybodol bob amser o'r polisiau, gweithdrefnau a chyfarwyddyd sydd ar gael iddynt i gynorthwyo eu gwaith gyda phobl ifanc mewn amgylchedd addysgol diogel, cyfreithlon a chynhyrchiol. Dylid diweddarau'r amrywiaeth o ddulliau o ymdrin â'r cwricwlwm o hyd fel y gall yr ymarferydd gynnig ystod eang o brofiadau addysgol i'r bobl ifanc dan eu gofal.

[The Youth Workers' Code of Professional Ethics – Doug Nicholls 1998]

Sefyllfaoedd Ymyryd

a) Mae rhywun ifanc wedi cael alcohol neu ryw sylwedd arall ac am ddod i mewn i'r adeilad n?

- dim mynediad i'r adeilad am resymau diogelwch
- rhoi sêl bendith ar alcohol neu sylweddau eraill
- dan eich gofal
- gallai arwain at drais
- model rôl
- dylanwad ar bobl ifanc eraill

b) Mae rhywun ifanc yn rhannu cyfrinach gyda chi, beth sy'n digwydd nesaf?

- cael gwybod y ffeithiau
- egluro wrth y person ifanc beth allai ddigwydd nesaf
- rhoi gwybod i'r rheolwr llinell nesaf cyn gynted â phosibl

TAFLEN ADNODDAU:11.6

CÔD MOESeg

Materion moesegol mewn perthynas â chydweithwyr:

1. Dylai gweithwyr barchu cyfrinachedd mewn unrhyw drafodaethau gyda gweithwyr unigol eraill am eu problemau a'u hanawsterau proffesiynol, ac eithrio lle bo pryder a chyfrifoldeb uwchlywodraethol am y cleientiaid neu'r sefydliad.
2. Os bydd gweithiwr/wraig ag unrhyw bryder neu anfodlonrwydd am waith neu safonau gwaith cydweithiwr/wraig, dylai, lle bo modd, drafod y mater yn anffurfiol ac yn gyfrinachol gyda;r sawl dan sylw. Os na ddatrysir y mater yn anffurfiol, ni ddylai wneud rhagor heb hysbysu'r cydweithiwr/wraig.
3. Ni ddylai gweithwyr bardduo'u cydweithwyr ym mhresenoldeb trydydd partiön, ac ni ddylai gweithwyr feirniadu cydweithwyr yng nglydd neb arall ac eithrio yng nghyd-destun y gweithdrefnau priodol

Ni ddylai gweithwyr orfodi gwaith gormodol ac afresymol o unrhyw fath ar gydweithwyr.

Materion moesegol mewn perthynas â chleientiaid:

1. Tasg gwaith ieuenctid a chymuned yw rhoi cyfle i bobl ifanc archwilio, darganfod ac egluro du;iau ofyw mewn ffordd fwy boddhaol a hunangynhaliol. Mae cynnal safonau da mewn gwaith ieuenctid yn golygu hunan-fonitro a hunan-ddatblygu parhaus ar ran y gweithiwr ieuenctid.
2. Mae'r berthynas gwaith ieuenctid yn gyfrinachol ac eithrio lle y gall y person ifanc neu eraill fod ar risg.
3. Mae gweithwyr ieuenctid yn gyfrifol am barchu'r egwyddorion a ymgorfforir yn y côd moeseg hwn.
4. Mae gweithwyr ieuenctid yn parchu urddas a gwerth pawb a'u hawl eithaf i ymreolaeth, tra'n rhoi sylw hefyd i fuddiannau pobl eraill. Mae gweithwyr ieuenctid yn derbyn cyfrifoldeb i annog a hwyluso hunanddatblygiad gan bobl ifanc.
5. Mae gweithwyr ieuenctid yn gyfrifol am osod a monitro'r ffiniau rhwng perthynas broffesiynol a chyfeillgarwch, ac am egluro'r ffiniau hyn mor hyd y gellir wrth bobl ifanc.
6. Mae gweithwyr ieuenctid yn parchu pobl ifanc fel bodau dynol sy'n gweithio tuag at ymreolaeth, a all wneud penderfyniadau a newidiadau yng ngoleuni eu credoau a'u gwerthoedd eu hunain.
7. Dylai gweithwyr ieuenctid sicrhau nad yw e gwaith gyda phobl ifanc yn cael ei ddefnyddio er mwyn bodloni eu hanghenion emosïynol a/neu gorfforol eu hunain.
8. Dylai gweithwyr ieuenctid sicrhau eu bod yn cynnal eu cymhwysedd proffesiynol trwy ddilyn hyfforddiant priodol yn rheolaidd.
9. Dylai gweithwyr ieuenctid adnabod terfynau eu cymhwysedd, a chyfeirio pobl ifanc mewn ffordd briodol lle bo angen.

TAFLEN ADNODDAU:11.8


Ymdrin â Gwrthdrawiad a Thrais

Rhestrwch y ffactorau sy'n arwain at ymddygiad sydd heb fod yn gyson â gwerthoedd gwaith ieuenctid

Rhestrwch fesura a all arwain at leihau tebygolrwydd gwrthdaro

Rhestrwch sut y gellir helpu pobl newydd i ymwneud â'i gilydd mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu gwerthoedd gwaith ieuenctid

Rhestrwch ffyrdd o ymateb yn wyneb gwrthdaro neu ymddygiad annerbyniol



GWEITHIO GYDAG UNIGOLION:11.1

CAEL 'SGWRS'

Mae'r rhan fwyaf o'r rhyngweithio'n digwydd trwy sgwrs, felly mae'n rhaid i'r gweithiwr feddwl yn glir iawn am y sgysiau sy'n digwydd gyda phobl ifanc – eu rôl a'r math o ymyrryd a all ddigwydd. I wneud hynny rhaid ichi fod â digon o wybodaeth a rhagwelediad am yr hyn sy'n debyg o ddigwydd nesaf a bod yn barod i ddefnyddio sgysiau fel cyfleoedd i addysgu, hyd yn oed mewn ffordd anffurfiol. Dyna beth sy'n gwneud sgysiau'n ystyrlon.

'Nid yw sgysiau ystyrlon yn digwydd mewn gwagle. Rhaid ichi greu amgylchiadau iddynt ddigwydd. Amgylchiadau cynnes, hwyliog, difyfyf. Amgylchiadau le mae pobl ifanc yn cael ehangu eu gwybodaeth, deall cymhlethdod y materion sydd dan sylw a'u mynegi eu hunain mewn ffordd glir, uniongyrchol a phendant.

Unwaith y byddwch wedi meithrin perthynas, gellir gwneud y gwaith hwnnw mewn ychydig eiliadau. Dyma garreg arall ac efallai y bydd rhywbeth yn digwydd yn nes ymlaen ac y bydd rhywun ifanc yn teimlo'n ddigon hyderus i ddod yn ôl atoch am sgwrs arall.'

Green a Christian (1998)

GWEITHIO GYDAG UNIGOLION:11.2

Pethau i fod yn ymwybodol ohonynt:

- ⇒ Gwranddo
- ⇒ Ymateb
- ⇒ Cyswllt Llygad
- ⇒ Derbyn
- ⇒ Dim beirniadaeth
- ⇒ Ceisio deall
- ⇒ Cymharu eich profiad eich hun â phrofiad y person sydd â phroblem

- ⇒ Dehongli'r hyn sy'n digwydd neu'n cael ei ddweud
- ⇒ Helpu'r person i feddwl am atebion
- ⇒ Helpu'r person i weithredu cynllun

GWEITHIO GYDAG UNIGOLION:11.3

GWRANDO AC YMATEB

Sgil	Ymadroddion
Crynhoi	Felly'r prif bwyntiau dan sylw hyd yma yw Y pwyntiau allweddol sydd gennych chi yw
Cwestiynau agored	Allwch chi ddweud sut rydych yn teimlo am Sut digwyddodd hynny Defnyddio ble, pryd, pwy – osgoi pam
Gwrando gweithredol	Eich teimlad, mae'n debyg, yw Rydych chi'n swnio fel petaech chi'n flin iawn

Sgil

Aralleirio

Mae'n ymddangos eich bod
yn dweud
Os ydw i wedi eich deall yn
iawn, rydych yn dweud

Holi ymhellach

Allwch chi ddweud rhagor
am
Sut digwyddodd hynny
Oedd rhywbeth arall yn
digwydd yr un pryd

Wynebu

Mae'n ymddangos eich bod
yn dweud dau beth
gwahanol, ar y naill law
rydych chi'n dweud ac
ar y llall

GWEITHIO GYDAG UNIGOLION:11.4

Meysydd i feddwl amdanynt:

- Gwranddo
 - Ymateb
 - Cyswllt llygad
 - Derbyn
 - Dim beirniadaeth
 - Ceisio deall
-
